Rhif: WG28723

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Polisi Cynllunio Cymru Drafft: Rhifyn 10

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-413-5

## Cyflwyniad a'r Prif Faterion

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Rifyn 10 drafft Polisi Cynllunio Cymru (PCC), rhwng 12 Chwefror ac 18 Mai 2018.

PCC yw'r ddogfen bolisi genedlaethol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Fe'i defnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lunio polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth bwysig i lunwyr penderfyniadau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae'r Polisi'n cyflwyno polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru.

Bu'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio PCC yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ailwampiwyd PCC i themâu polisi sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant a diweddarwyd y polisi lle'r oedd angen i adlewyrchu strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd 36 o gwestiynau i gyd fel rhan o'r ymgynghoriad; mae manylion pellach yn yr adrannau dilynol.

Cafwyd sylwadau manwl a hynod amrywiol a oedd yn tynnu sylw at lawer o faterion thematig ac unigol. Oherwydd natur y sylwadau a ddaeth i law, nid yw'r adroddiad cryno hwn yn cyfeirio'n benodol at bob sylw manwl a dderbyniwyd. Fodd bynnag, cafodd yr holl sylwadau a dderbyniwyd eu hystyried wrth ddadansoddi'r ymatebion.

Mae'r adroddiad cryno hwn o'r ymgynghoriad yn darparu crynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd. Mae canlyniadau'r dadansoddiad wedi llywio'r broses o gyhoeddi fersiwn derfynol o Rifyn 10 PCC.

## Cefndir

Nid yw fformat cyfredol PCC wedi newid llawer ers ei gyhoeddi gyntaf yn 2002 hyd at Rifyn 9 y ddogfen a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, gyda phob pennod yn trafod un thema/pwnc neu fwy. Mae'r penodau hyn yn amlinellu amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y meysydd hyn; yn egluro'r cyd-destun polisi ac yn disgrifio materion allweddol; yn nodi meysydd y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fynd i'r afael â nhw'n lleol; ac yn amlinellu materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd PCC ers ei gyhoeddi gyntaf. Pan oedd Deddf Cynllunio (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cael eu datblygu, ymrwymwyd i ad-drefnu PCC fel ei fod yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol y deddfau hyn yn gliriach.

Mae'r gofynion deddfwriaethol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gorchymyn y dylid gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol) feddwl am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, i geisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydlynol o ddarparu datblygiadau cynaliadwy.

Er mwyn sicrhau ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 5 Ffordd o Weithio hefyd i helpu i gyflawni'r nodau gwelliant.

Y system gynllunio yw un o'r prif adnoddau sydd gennym i greu mannau cynaliadwy. Dyma'r prif gyfraniad y gall y system gynllunio ei wneud i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system 5 gynllunio neu'n gweithredu ynddi fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd wrth lunio cynlluniau ac mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau er mwyn creu mannau cynaliadwy. Dull aml-haen o gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd cyhoeddus yw creu lleoedd. Mae'n manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial cymuned leol gyda'r bwriad o greu datblygiad sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Mae'n ganolog felly i amcanion ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cynigion Ymgynghori

Ailwampiwyd Rhifyn 10 drafft PCC er mwyn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd a'r cysyniad o greu lleoedd i ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar gynigion datblygu. Hefyd, roedd yn diweddaru'r polisi cynllunio mewn meysydd allweddol lle bo angen hefyd i adlewyrchu strategaethau a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Rhifyn 10 yn gofyn am sylwadau ar strwythur newydd PCC, y cysyniad o greu lleoedd a'r gofynion polisi newydd neu ddiwygiedig.

## Ymgynghori a Chyhoeddusrwydd

Cyhoeddwyd Rhifyn 10 drafft PCC gan Lywodraeth Cymru am gyfnod ymgynghori o 13 wythnos, rhwng 12 Chwefror 2018 ac 18 Mai 2018.

Cafodd manylion yr ymgynghoriad eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru gydol cyfnod yr ymgynghoriad. Rhoddwyd gwybod i randddeiliaid sefydledig y system gynllunio am yr ymgynghoriad, gan gynnwys y 25 o awdurdodau cynllunio lleol ac ymgynghoreion statudol eraill. Defnyddiwyd dulliau eraill i ddosbarthu gwybodaeth hefyd, gan gynnwys cyflwyniadau ar y Polisi Drafft gan swyddogion Llywodraeth Cymru i grwpiau rhanddeiliaid cynllunio amrywiol ledled Cymru ac i grwpiau penodol a buddiant yn y system gynllunio dros y cyfnod ymgynghori. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ddatganiad ysgrifenedig am yr ymgynghoriad a rhoddwyd cyhoeddusrwydd pellach iddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook a Twitter.

## Ymatebion yr Ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 2,779 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, cafwyd 2,562 o ymatebion ar fater penodol yn ymwneud a geiriad polisi ar goetir hynafol yn y ddogfen ddrafft.

Serch yr ymatebion hyn ar fater unigol, o'r 217 o ymatebion eraill a ddaeth i law, yr ymatebwyr mwyaf o ran math oedd cyrff proffesiynol a grwpiau buddiant a gynrychiolai 28% o'r ymatebwyr.

Roedd 19% o'r ymatebwyr yn perthyn i'r grŵp 'arall' ac yn cynnwys cyfuniad o unigolion a sefydliadau a naill ai buddiant personol neu broffesiynol yn y gyfundrefn gynllunio. Daeth 15% o'r ymatebwyr o'r sector gwirfoddol a 14% o fyd busnes.

Roedd 12% o'r ymatebwyr yn perthyn i awdurdodau cynllunio lleol, a 12% arall yn perthyn i asiantaethau'r llywodraeth a chyrff eraill y sector cyhoeddus. Roedden nhw'n cynnwys 24 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol Cymru, yn ogystal â gwasanaethau asiantaethau /

sector cyhoeddus unigol ac ar y cyd megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynghorau tref a chymuned a Chomisiynydd y Gymraeg.

*Tabl 1: Ymatebwyr i Rifyn 10 drafft PCC, yn ôl math*

| Math o | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Corff proffesiynol / Grŵp buddiant | 61 | 28% |
| Arall | 41 | 19% |
| Y s | 33 | 15% |
| Busnesau | 31 | 14% |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 26 | 12% |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Sector cyhoeddus arall | 25 | 12% |
| **Cyfanswm** | **217** | **100%** |

**Crynodeb o'r Ymatebion Fesul Cwestiwn**

Mae dadansoddiad cryno o gasgliadau allweddol pob cwestiwn ymgynghori ar gael isod, ac yna ymateb Llywodraeth Cymru. Mae rhai o'r cwestiynau wedi'u grwpio gyda'i gilydd oherwydd pwyntiau cyffredin a godwyd neu ymatebion cyffredin.

Cofiwch nad yw'r dadansoddiad cryno isod yn adlewyrchiad o'r holl ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n seiliedig ar yr ymatebwyr a atebodd 'ydw' neu 'nac ydw' i'r cwestiynau (fel yr amlinellir yn y tablau). Dewisodd llawer o'r ymatebwyr beidio rhoi ateb uniongyrchol, gan roi sylwadau yn lle hynny. Lle bo modd, mae sylwadau a safbwyntiau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad os ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â phwnc y cwestiwn dan sylw hyd yn oed os na chawsant eu cyflwyno'n benodol fel atebion i'r cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n cynnig cyfle i'r ymatebwyr fanylu ymhellach; felly mae llawer o'r dadansoddiad o natur ansoddol.

Mae Cwestiynau 1 i 5, sy'n ymwneud ag elfennau cyflwyniadol Pennod 2 o fersiwn ddrafft PCC neu strwythur y ddogfen yn ei chyfanrwydd, wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan fod ymateb Llywodraeth Cymru yn croestorri llawer o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| **C1** | Ydych chi'n cytuno y dylid clystyru pynciau polisi cynllunio ar sail themâu sy'n dangos eu cysylltiad â'i gilydd a'r 7 nod llesiant? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Er mwyn ailwampio PCC i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd, a ddarparwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, tra'n parhau i ddarparu cyd-destun priodol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a gwneud cynigion datblygu, roedd fersiwn ddrafft o Rifyn 10 yn cysoni meysydd pwnc polisi cynllunio gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwnaed hyn trwy ddwyn ynghyd y meysydd pwnc hynny oedd a chysylltiadau cyffredin â disgrifiadau o nodau'r Ddeddf, a'u grwpio gyda'i gilydd o dan benawdau thematig.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 10 | 4 | 6 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 6 | 8 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 10 | 2 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 25 | 8 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 12 | 2 | 2 |
| Arall | 14 | 5 | 6 |
| **Cyfanswm** | **78** | **27** | **25** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **60%** | **21%** | **19%** |

| **C2** | Ydych chi'n cytuno bod y cyflwyniad yn darparu trosolwg digonol o'r system gynllunio yng Nghymru a chyd-destun priodol? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae Pennod 1 Rhifyn 10 drafft, y Cyflwyniad, yn rhoi trosolwg o beth yw amcanion PCC a'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Mae'n tynnu sylw at ddeddfwriaeth allweddol ac yn darparu cyd-destun polisi ar gyfer Cynlluniau Datblygu a Rheoli Datblygiadau.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 6 | 8 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 1 | 7 | 13 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 22 | 9 | 9 |
| Y sector gwirfoddol | 3 | 7 | 4 |
| Arall | 6 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm** | **41** | **39** | **45** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **33%** | **31%** | **36%** |

| C3 | Ydych chi'n cytuno â'r Egwyddorion Cynllunio? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae Pennod 2 o Rifyn 10 10 drafft, Creu Lleoedd, yn cyflwyno'r cysyniadau sydd eu hangen i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio neu'n gweithredu ynddi fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd wrth lunio cynlluniau ac mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau er mwyn creu Mannau Cynaliadwy.

Mae'r Bennod Creu Lleoedd yn cyflwyno'r 5 Egwyddor Gynllunio Allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar gyfer cynllunio a ddylai fod yn fan cychwyn i bawb sy'n ystyried yr hyn maent yn ceisio ei gyflawni. Mae'r bennod yn egluro hefyd mai Mannau Cynaliadwy yw'r nod i'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru; dyma allbwn y broses gynllunio. Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai drwy lunio polisïau mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygiadau unigol geisio cyfrannu at greu Mannau Cynaliadwy.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 9 | 6 | 5 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 9 | 5 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 9 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 26 | 7 | 6 |
| Y sector gwirfoddol | 12 | 3 | 0 |
| Arall | 8 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | **71** | **31** | **28** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **55%** | **24%** | **22%** |

| C4 | Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o beth yw 'Man Cynaliadwy'? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 11 | 4 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 5 | 9 | 7 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 7 | 3 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 16 | 9 | 10 |
| Y sector gwirfoddol | 2 | 4 | 5 |
| Arall | 6 | 6 | 10 |
| **Cyfanswm** | **40** | **42** | **36** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **34%** | **36%** | **31%** |

| **C5** | Ydych chi'n cytuno gyda'r canlyniadau cynllunio lefel uchel a nodir gan Pobl a Lleoedd: Y Canlyniadau Creu Lleoedd Cenedlaethol? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Rydym wedi datblygu cyfres o Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy lefel uchel, i ddwyn ysbryd creu lleoedd ynghyd mewn un lle cryno ac i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n cyfrannu at greu Mannau Cynaliadwy cyn belled ag y bo'n bosibl.

Nid disodli'r ystyriaethau manwl sy'n digwydd yn ystod pob cais cynllunio neu broses ddyrannu safle yw pwrpas y polisi creu lleoedd, ond yn hytrach mae'n cynnwys y canlyniadau lefel uchel y mae polisi cynllunio yn ceisio eu cyflawni a'u hystyried.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 11 | 6 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 4 | 11 | 5 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 19 | 11 | 6 |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 4 | 1 |
| Arall | 5 | 6 | 10 |
| **Cyfanswm** | **41** | **48** | **28** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **35%** | **41%** | **24%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Ar y cyfan, roedd pawb yn cytuno â'r egwyddor o strwythuro PCC o gwmpas themâu gwahanol; ond dywedodd rhai ymatebwyr bod angen symleiddio'r strwythur cyfan a bod gormod o agweddau gwahanol yn cael eu defnyddio i esbonio cysyniadau a'r defnydd o'r ddogfen. Awgrymodd eraill bod angen rhagor o esboniad sut i ddefnyddio'r ddogfen a'r diagramau ynddi. Dywedodd rhai bod angen mwy o gysylltiadau rhwng themâu.

Roedd sylwadau ar y bennod gyflwyniadol yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith nad oedd gan rai meysydd polisi gyfeirnod penodol. Hefyd, awgrymwyd bod angen diweddaru'r ffeithiau yn

adran y broses galw i mewn a bod angen cyfeirio at gyd-destun deddfwriaethol llawn y system gynllunio fel y gwnaed yn Rhifyn 9 yn flaenorol. Cafwyd cryn dipyn o ymatebion yn gofyn am egluro rolau haenau gwahanol y cynllun datblygu.

Roedd yr ymatebion i’r prif egwyddorion cynllunio’n gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd cryn dipyn o’r ymatebwyr fod angen egwyddor yn ymwneud â ffyniant economaidd oherwydd teimlwyd bod hyn ar goll o fersiwn ddrafft y ddogfen. Awgrymwyd gan lawer bod angen diwygio’r testun sy’n cyd-fynd â’r egwyddorion.

Cafodd y diffiniad o beth yw Man Cynaliadwy a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy nifer o ymatebion manwl gydag awgrymiadau ar gyfer newid. Hefyd, gofynnwyd am eglurhad o statws y Canlyniadau ac a oedd angen cyflawni pob un ohonynt ym mhob cynnig datblygu. Cafwyd sylwadau hefyd am y ffaith fod canlyniadau’n lleihau’r angen am ddiffiniad penodol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Pennod 1 ac elfennau cyflwyniadol Pennod 2 wedi’u diwygio erbyn hyn. Mae theori creu lleoedd a'r cyd-destun polisi sy’n ymwneud â chynllunio strategol mewn penodau ar wahân bellach i’w gwneud hi’n haws i bori drwy’r ddogfen. Mae’r ddogfen yn cynnwys Atodiad newydd er mwyn amlinellu darnau perthnasol o ddeddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd. Mae’r testun ar Gynlluniau Datblygu wedi’i ddiwygio i’w wneud yn gliriach.

Mae Llywodraeth Cymru’n gwerthfawrogi’r ffaith y gallai’r pynciau polisi fod wedi’u dyrannu i’r themâu mewn sawl ffordd wahanol; ond yn ystyried mai’r grwpiau hyn yw’r ffordd fwyaf effeithiol o annog creu lleoedd yn ymarferol. Mae PCC wedi’i ddiwygio i gynnwys gwybodaeth fanylach ar sut i ddefnyddio’r ddogfen hon.

Mae’r Egwyddorion Cynllunio Allweddol wedi’u hailwampio gydag egwyddor newydd yn ymdrin â ffyniant economaidd. Mae’r geiriau i gyd-fynd â’r egwyddorion wedi’u diwygio lle bo’n briodol er mwyn adlewyrchu dyheadau’r egwyddor yn fwy cywir yn sgil yr ymgynghoriad. Mae’r egwyddorion yn rhan allweddol o elfen ddamcaniaethol y ffordd newydd o weithio yn PCC ac mae Atodiad B newydd y ddogfen yn pwysleisio sut maen nhw’n berthnasol i Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy.

Mae’r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy wedi’u diwygio fel eu bod yn fwy cryno a hunanesboniadol ac yn cyd-fynd â’r diagram ym Mhennod 2 PCC. Mae’r rhain wedyn yn cyd-fynd â phob thema gyda diagram tebyg yn esbonio pa ganlyniadau sydd fwyaf perthnasol. Ymhelaethwyd ar y defnydd o ganlyniadau er mwyn egluro sut i’w defnyddio. Mae’r diffiniad o ‘Man Cynaliadwy’ wedi’i gynnwys yn nhestun y ddogfen yn hytrach nag fel canlyniad penodol ei hun. Bellach, y bwriad yw cyflawni Lle Cynaliadwy trwy sicrhau’r canlyniadau mwyaf.

| | |
|---|---|
| **C6** | Ydych chi’n cytuno gyda’r drefn chwilio a amlinellir ar gyfer ffurfio strategaethau cynllun datblygu? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae PCC yn cydnabod bod tir yn adnodd y mae pen draw iddo ac, yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, dylid ei ddatblygu mewn ffordd effeithlon. Rydym felly wedi ceisio gwneud y dull rydym yn ei ffafrio ar gyfer ffurfio

strategaethau cynlluniau datblygu yn fwy eglur drwy amlinellu trefn chwilio ar gyfer datblygiadau newydd.

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 10 | 5 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 7 | 6 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 6 | 3 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 16 | 15 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 4 | 7 | 0 |
| Arall | 9 | 5 | 8 |
| **Cyfanswm** | **46** | **47** | **23** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **40%** | **41%** | **20%** |

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Mewn egwyddor, roedd ymatebwyr yn cytuno â’r drefn chwilio er mwyn dod o hyd i safleoedd addas i’w datblygu a’i bod hi’n well ganddyn nhw ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol (a elwir yn dir llwyd hefyd) cyn safleoedd tir glas. Fodd bynnag, roedd llawer o’r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y drefn chwilio yn ddigon amlwg yn y bennod ac y gallai gael ei gweld braidd yn or-syml o ystyried y diffyg sylw o gymharu â materion eraill sy’n gysylltiedig â dewis safle e.e. cyfyngiadau amgylcheddol, manylion cynaliadwyedd a hyfywedd y safle.

Mae’r ymatebwyr yn credu ei bod hi’n bwysig pwysleisio nad ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yw’r dewisiadau mwyaf addas ar gyfer datblygu bob amser, ac y gallai’r safleoedd hyn gynnwys heriau sylweddol yn nhermau cyflenwi ac ymarferoldeb. Roedd sylwadau’n amlinellu bod angen gwerthusiad llawn o safleoedd yn hytrach na phroses or-syml o gymryd yn ganiataol y bydd pob tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn fwy addas ar gyfer datblygiadau’r dyfodol.

Cafwyd sylwadau manwl yn amlinellu’r anghysondebau posib rhwng meysydd polisi eraill fel tir a ddatblygwyd yn flaenorol a’r maes tai.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae’r Strategaeth Ofodol a’r adran chwilio yn egluro’n well pa faterion sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu eu strategaeth ofodol. Mae’r adran hon bellach yn cydnabod bod rhaid i awdurdodau cynllunio roi blaenoriaeth ar wneud defnydd addas a chynaliadwy o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu safleoedd wedi’u tanddefnyddio ar gyfer pob math o ddatblygiad, wrth baratoi eu strategaeth ofodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob safle o’r natur hwn yn addas ar gyfer pob math o ddatblygiad.

Bellach, mae’r adran yn pwysleisio bod rhai i’r broses chwilio a nodi tir datblygu gydymffurfio’n llawn â gofynion yr holl bolisïau cynllunio cenedlaethol perthnasol. Hefyd,

bydd angen deall amodau economaidd a’r farchnad er mwyn dewis lleoliad a safle. Rhaid ystyried a oes angen ymyriadau penodol gan y sector cyhoeddus a/neu breifat, fel strategaethau neu gyllid adfywio, er mwyn helpu i gyflawni’r strategaeth a chynigion datblygu penodol.

| C7 | Ydych chi’n cytuno gyda’n dull polisi diwygiedig ar gyfer hyrwyddo aneddiadau newydd ac estyniadau trefol? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd fersiwn ddrafft PCC yn awgrymu polisi newydd ar hyrwyddo aneddiadau newydd neu estyniadau trefol mawr, sy’n cynnwys 1,000 neu fwy o aneddiadau. Yn sgil eu natur a’u harwyddocâd strategol, sy’n mynd y tu hwnt i un ffin awdurdod lleol, dim ond fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Cynllun Datblygu Strategol neu’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y cynigiwyd eu cynnwys.

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 10 | 6 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 1 | 4 | 16 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 15 | 13 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 5 | 5 | 0 |
| Arall | 8 | 5 | 8 |
| **Cyfanswm** | **35** | **41** | **35** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **32%** | **37%** | **32%** |

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Ar y cyfan, croesawyd y safbwynt polisi cadarnhaol ar aneddiadau newydd; ond roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr naill ai’n anghytuno ag agweddau ar y polisi neu’n meddwl bod angen rhagor o esboniad.

Roedd llawer o’r ymatebwyr yn deall yr egwyddor o gyfyngu ar ddyrannu aneddiadau newydd neu estyniadau trefol mawr sy’n fwy na maint penodol i Gynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd neu gynlluniau haen uwch, ond roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod y polisi yn rhy ragnodol a chynamserol o gofio’r ansicrwydd ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd a Chynlluniau Datblygu Strategol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y dull yn rhy gaeth ac y byddai'n tanseilio democratiaeth leol a gallu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer eu hardaloedd eu hunain. Roedd ymatebwyr yn cydnabod y gall aneddiadau newydd fod yn bwysig y tu hwnt i ardal awdurdod lleol unigol, ond yn amlinellu bod angen cydweithio ag awdurdodau cyfagos wrth fwrw ymlaen â Chynllun Datblygu Lleol. Felly, teimlwyd bod y polisi yn rhy gaeth ac y dylid ei ddiwygio er mwyn cydnabod y gallai aneddiadau newydd gael eu cyflwyno trwy Gynlluniau Datblygu Lleol unigol.

Roedd mwyafrif helaeth y sylwadau yn ymwneud hefyd â'r trothwy o 1000 o aneddiadau gyda llawer o ymatebwyr yn dweud nad oedd hi'n ymddangos bod unrhyw dystiolaeth neu resymeg dros gyfiawnhau'r ffigur mympwyol hwn.

Mynegwyd pryderon hefyd am y gwahaniaeth sylweddol rhwng aneddiadau newydd ac estyniadau trefol, gyda llawer yn ystyried y dylai'r ddau fath gwahanol o ddatblygiad gael eu trin ar wahân. Hefyd, cafwyd sylwadau am sut fyddai cynnig am anheddiad newydd yn ffitio i'r drefn chwilio ar gyfer nodi safleoedd datblygu.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal y safbwynt mai dim ond fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Cynllun Datblygu Gofodol neu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol y dylid cynnig aneddiadau newydd, oherwydd eu natur strategol a'u harwyddocâd y tu hwnt i ffiniau awdurdod lleol unigol. Fodd bynnag, nid yw'r adran am Aneddiadau Newydd yn berthnasol i "estyniadau trefol" mwyach ac mae'r terfyn o 1000 o aneddiadau wedi'i ddileu, er mwyn cydnabod y dylai anheddiad newydd fod yn hunangynhaliol ond y gallai amrywio o ran maint, yn dibynnu ar faterion penodol a'r lleoliad dan sylw.

Bellach, mae'r adran hon yn dweud bod angen i aneddiadau newydd fod yn hunangynhaliol ac nid yn drefi noswylio ar gyfer ardaloedd trefol mwy, ac y dylent gael eu cysylltu â system drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a chynnwys seilwaith cymdeithasol hanfodol fel ysgolion cynradd ac uwchradd, darpariaeth gofal iechyd, cyfleoedd gwaith a siopa, cyn dechrau eu llenwi â phreswylwyr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ystadau tai yn unig yw aneddiadau newydd, lle mae angen defnyddio'r car i gyrraedd cyfleusterau bob dydd.

Mae Aneddiadau Newydd yn rhan o drefn chwilio safleoedd erbyn hyn, ond dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid eu hystyried.

| | |
|---|---|
| **C8** | Ydych chi'n cytuno gyda'n dull polisi diwygiedig sy'n ffafrio ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Rydym hefyd wedi edrych ar ein polisi ar ddefnyddio safleoedd tir llwyd ac wedi'i gryfhau i geisio sicrhau bod yr holl opsiynau i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cael eu hystyried cyn y defnyddir safleoedd maes glas. Y flaenoriaeth bennaf nawr fydd ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn gyntaf. Yn unol â chyngor yn ddiweddarach yn PCC, roedd Rhifyn 10 drafft yn cynghori awdurdodau cynllunio i barhau i fabwysiadu agwedd dadrisgio at safleoedd i'w galluogi i ddod ymlaen, gan ystyried y gallu i gyflawni mewn termau economaidd.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 10 | 8 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 6 | 8 | 9 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 10 | 1 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 17 | 14 | 4 |
| Y sector gwirfoddol | 7 | 5 | 0 |
| Arall | 10 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm** | **51** | **44** | **27** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **42%** | **36%** | **22%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylid defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na safle tir glas, mewn ardaloedd trefol a gwledig, a bod y dull yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau tir prin. Fodd bynnag, roedd llawer o sylwadau'n dweud na ellir cymryd bod pob tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn addas i'w ddatblygu a bod angen hyblygrwydd er mwyn caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu pa mor addas yw'r tir hwnnw. Hefyd, mae angen ffordd o ganiatáu inni ystyried manteision cymharol tir a ddatblygwyd yn flaenorol a datblygiad tir glas.

Cefnogwyd y dull 'dadrisgio' mewn egwyddor a chytunwyd y gallai helpu i ddwyn safleoedd ymlaen. Er hynny, ystyriwyd bod y dull hwn yn dibynnu'n fawr ar gyfraniadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac arbenigwyr mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, a allai effeithio ar ba mor ymarferol a phosib yw'r cynllun. Teimlwyd y gall ymagwedd gyffredinol at dir a ddatblygwyd yn flaenorol a dadrisgio fod yn fwy ymarferol os oedd cyllid/grantiau penodol ar gyfer gwaith o'r fath.

Roedd ymatebwyr o'r farn fod adrannau o PCC yn anghyson o ran terminoleg, wrth gyfeirio at dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir llwyd.

Cafwyd sylwadau penodol am y diffiniad o 'datblygwyd yn flaenorol' - yn enwedig gwerth cadwraeth natur, ond hefyd adeiladau'r diwydiant amddiffyn, amaethyddol a choedwigaeth, garddwriaethol, tirlenwi, archaeoleg, ac na ddylid gadael i dir ddirywio'n fwriadol er mwyn bod yn rhan o'r diffiniad.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylid, lle bo modd, defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na safleoedd tir glas os yw'n addas i'w ddatblygu. O ran aneddiadau, dylai tir o'r fath gael ei ystyried yn addas ar gyfer datblygiadau priodol yn gyffredinol, os bydd ailddefnyddio'r tir hwnnw'n hyrwyddo egwyddorion cynaliadwy a bod modd goresgyn unrhyw gyfyngiadau. Fodd bynnag, cydnabyddir bellach nad yw pob tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn addas i'w ddatblygu - oherwydd ei leoliad anaddas, er enghraifft, neu bresenoldeb rhywogaethau gwarchodedig, cynefinoedd gwerthfawr neu dreftadaeth ddiwydiannol, neu oherwydd lefelau uchel o lygredd.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r awdurdodau cynllunio weithio gyda thirfeddianwyr i sicrhau bod safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol mewn lleoliadau addas yn cael eu cyflwyno i'w datblygu, a sicrhau dull cyson o'u datblygu. Er mwyn cymell defnydd priodol o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, dylai awdurdodau cynllunio arwain y blaen trwy ystyried a nodi pa ymyriadau penodol sy'n angenrheidiol gan y sector cyhoeddus a/neu'r sector preifat er mwyn helpu i gyflawni hynny.

Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r eithriadau o'r diffiniad o ran cadwraeth natur, er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd o ymdrin ag eithriadau eraill.

| **C9** | Ydych chi'n cytuno gyda'n dull polisi diwygiedig ar gyfer dynodi Lleiniau Gwyrdd a Lletemau Gwyrdd? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Rydym wedi egluro'r gwahaniaeth rhwng Lleiniau Glas a Lletemau Glas. Er y dylai cynigion ar gyfer lleiniau glas a lletemau glas fod wedi'u seilio'n gadarn ar asesiad ffurfiol o'u cyfraniad at ffurf drefol a lleoliad datblygiad newydd a gallant fod mewn sawl ffurf wahanol. Y gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt yw y dylid gwarchod tir o fewn Llain Glas am fwy o amser na chyfnod perthnasol y cynllun datblygu cyfredol, tra bod angen adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses adolygu cynlluniau datblygu. Mae lleiniau glas yn strategol eu natur hefyd ac ni ddylid eu cynnig oni bai eu bod yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd neu Gynllun Datblygu Unigol.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 11 | 3 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 6 | 9 | 6 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 17 | 14 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 3 | 8 | 0 |
| Arall | 8 | 3 | 9 |
| **Cyfanswm** | **40** | **48** | **20** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **37%** | **44%** | **19%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r polisi'n ymwneud â Lleiniau Glas a Lletemau Glas ac yn croesawu'r eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y dynodiadau.

Roedd cyfran helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y bydd Lleiniau Glas, oherwydd eu natur strategol, yn bwysig y tu hwnt i awdurdod lleol unigol ac y dylid ond eu cynnig fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd neu Gynllun Datblygu Unigol. Aeth sawl ymatebwr ymhellach gan ddweud mai dim ond trwy Gynlluniau Datblygu Lleol a/neu'r Fframwaith Datblygu Unigol y dylid hyrwyddo Lleiniau Glas. Er hynny, roedd gan rai farn wahanol, gan

ddweud y dylai bod opsiwn i hyrwyddo Lleiniau Glas trwy Gynllun Datblygu Lleol cyn belled â bod ymgynghoriad priodol a thystiolaeth o'r dynodiad trwy gydweithio ag awdurdodau cyfagos.

Roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod angen esboniad cliriach o'r hyn sy'n dderbyniol o fewn Llain Las neu Letem Las a rhoddwyd nifer o enghreifftiau fel echdynnu mwynau a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

O gofio'u pwysigrwydd strategol ac arwyddocaol y tu hwnt i awdurdod lleol unigol, safbwynt Llywodraeth Cymru yw mai dim ond trwy Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd neu Gynllun Datblygu Unigol y dylid dynodi Lleiniau Glas. Fodd bynnag, gellir cynnig dynodiadau drwy'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn awr hefyd os yw hynny'n briodol.

Darparwyd rhagor o wybodaeth am y mathau o ddatblygiadau a allai fod yn briodol yn y Llain Las neu'r lletem las cyn belled â'u bod nhw cadw'r tir yn agored ac nad ydynt yn gwrthdaro â dibenion cynnwys tir oddi fewn iddo. Mae'r rhain yn cynnwys:

- echdynnu mwynhau;
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel;
- gwaith peirianneg;
- seilwaith trafnidiaeth leol.

Rydym yn trafod Cwestiynau 10, 22 a 29 gyda'i gilydd gan eu bod nhw'n berthnasol i adrannau cyflwyniadol y themâu Lleoedd Actif a Chymdeithasol, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus a Lleoedd Unigryw a Naturiol.

| **C10** | Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau a nodir yn y cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon? |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae'r bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol yn Rhifyn 10 drafft y Polisi'n sôn am y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Mae hefyd yn creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd. Tynnwyd sylw hefyd at dueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn, yn ogystal â sut mae'r pynciau polisi gwahanol mewn thema'n gallu cydweithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni Mannau Cynaliadwy.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 14 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 2 | 12 | 7 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 5 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / | 15 | 10 | 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwpiau buddiant | | | |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 2 | 3 |
| Arall | 5 | 7 | 9 |
| **Cyfanswm** | **36** | **50** | **30** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **31%** | **43%** | **26%** |

| **C22** | Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau y tynnir sylw atynt yn y cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon? |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae'r cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yn Rhifyn 10 drafft PCC yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Mae hefyd yn creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Tynnir sylw hefyd dueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn, yn ogystal â sut y gall y gwahanol bynciau polisi yn y thema yn gallu cydweithio er mwyn cyflawni Mannau Cynaliadwy.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 11 | 3 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 7 | 4 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 2 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 15 | 12 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 7 | 4 | 0 |
| Arall | 5 | 8 | 6 |
| **Cyfanswm** | **42** | **44** | **19** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **40%** | **42%** | **18%** |

| **C29** | Ydych chi'n cytuno gyda'r materion a'r rhyng-gysylltiadau y tynnir sylw atynt yn y cyflwyniad i'r bennodd Lleoedd Unigryw a Naturiol? Pa faterion a chysylltiadau eraill y gellid eu nodi i gefnogi'r thema hon? |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae'r cyflwyniad i'r bennod Lleoedd Unigryw a Naturiol yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng pynciau polisi'r bennod hon â'r canlyniadau creu lleoedd. Roedd hefyd yn creu cysylltiadau gyda 7 Nod Llesiant a 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol hefyd. Nodwyd tueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn hefyd yn ogystal â sut y gall gwahanol bynciau polisi'r thema gydweithio i greu Mannau Cynaliadwy

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 8 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 6 | 8 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 17 | 11 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 6 | 5 | 1 |
| Arall | 5 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm** | **43** | **41** | **20** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **41%** | **39%** | **19%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn credu bod angen i adrannau cyflwyniadol yr holl themâu fod yn symlach a chliriach. Yn arbennig, roedd rhai' o'r farn bod elfennau diangen o ailadrodd rhwng y canlyniadau creu lleoedd cenedlaethol ym Mhennod 2 a chynnwys yr adrannau cyflwyniadol, er eu bod wedi'u cyflwyno'n wahanol. Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod y testun hwn, er yn ailadroddus, yn helpu i bwysleisio'r 'Egwyddorion Cynllunio Allweddol' yng nghyd-destun y themâu. Nodwyd nifer helaeth o awgrymiadau ar gyfer tueddiadau a dolenni cyswllt ychwanegol defnyddiol gan ymatebwyr hefyd.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru yn credu fod adrannau cyflwyniadol y tair 'thema' yn helpu i ddarparu crynodeb defnyddiol o'r materion a'r tueddiadau sydd angen i gynllunwyr eu hystyried wrth lunio cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Er nad ydynt yn bolisi, mae'r adrannau cyflwyniadol yn helpu i greu'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng cynllunio a'r amcanion llesiant a ffyrdd o weithio. Mae'r diagramau yno i helpu i nodi'r cysylltiadau rhwng y thema a'r Canlyniadau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol sy'n dwyn y ddogfen at ei gilydd dan agenda gyffredinol creu lle.

Fodd bynnag, fel y penodau cyflwyniadol i PCC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod hi'n bwysig gwahaniaethu rhwng theori a pholisi creu lleoedd. Felly, rydym wedi ailwampio dyluniad PCC er mwyn cynnwys y wybodaeth hon mewn blwch ar wahân i nodi'r gwahaniaeth hwnnw. Newidiwyd y tueddiadau a'r cysylltiadau penodol lle bo'n briodol.

| **C11** | Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig i hyfywedd gael ei asesu ar ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun ac i hyn gael ei ategu gan rôl ddatblygedig i lwybrau tai? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

### *Cyd-destun y cwestiwn*

Yn Rhifyn 10 drafft PCC, rhoddwyd pwyslais ar hyfywedd economaidd fel elfen ganolog i asesiadau o allu i gyflawni gofynion tai cynllun datblygu o ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun. Ategwyd hyn gan rôl ddatblygedig ar gyfer llwybrau tai, a fyddai'n sail ar gyfer cyflenwi tir i godi tai hyd nes bod angen cynnal astudiaeth o'r tir sydd ar gael ar gyfer tai i lywio Adroddiad Monitro Blynyddol cynllun datblygu cyntaf yr awdurdod.

### *Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol*

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 13 | 3 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 8 | 7 | 7 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 18 | 12 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 4 | 7 | 0 |
| Arall | 7 | 6 | 8 |
| **Cyfanswm** | **44** | **50** | **23** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **38%** | **43%** | **20%** |

### *Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno*

**Asesiadau hyfywedd** - Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd asesiadau hyfywedd fel rhan o'r asesiad o'r gallu i gyflawni gofynion tai'r cynllun datblygu. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni am ymarferoldeb cynnal asesiadau hyfywedd manwl cyn cytuno ar strategaeth a pholisïau'r cynllun datblygu ar faterion fel rhwymedigaethau cynllunio a thai fforddiadwy. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylai'r dull o asesu hyfywedd fod yn seiliedig ar bwysigrwydd y safle i gyflawni'r strategaeth tai a strategaeth y cynllun yn gyffredinol. Hefyd, mynegwyd y farn bod angen i'r cysylltiad rhwng hyfywedd a'r gallu i gyflawni fod yn gliriach. Roedd ambell ymatebydd yn poeni y gallai cynnal asesiadau hyfywedd ar gam cynharach achosi trafferthion i fusnesau bach a chanolig wrth ymgysylltu'n llawn â'r broses.

**Llwybrau tai** – Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn credu bod y llwybrau tai'n adnodd defnyddiol. Fodd bynnag, roedd rhai'n credu y dylent barhau'n rhan o sail dystiolaeth cynllun datblygu yn hytrach na dod yn rhan ffurfiol o gynllun wedi'i fabwysiadu gan nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn rheoli cyfraddau cyflawni wedi i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

Roedd rhai ymatebwyr, a oedd yn credu bod y broses JHLAS yn fwy ystyrlon, yn cwestiynu'r ffaith bod y cydastudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai (JHLAS) yn cael eu disodli gan lwybrau tai am gyfnod yn syth ar ôl i gynllun gael ei fabwysiadu.

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Mae fersiwn derfynol PCC yn sicrhau rhagor o eglurder ynghylch rôl asesiadau hyfywedd yn ystod y broses o baratoi cynllun. Mae'r PCC yn cynnig dull cymesur sy'n gwahaniaethu rhwng y math o asesiad sy'n ofynnol ar wahanol gamau'r broses a rhwng pwysigrwydd y safleoedd i gyflawni strategaeth y cynllun. Mae'r datganiad polisi hwn yn ategu'r cysylltiad rhwng hyfywedd a'r gallu i gyflawni hefyd.

Mae llwybrau tai yn dangos sut y bydd safleoedd mewn cynllun datblygu yn cael eu cyflawni trwy ddarparu crynodeb o wybodaeth safle benodol gam wrth gam ar gyfer pob safle. Mae llwybrau tai yn helpu i fonitro'r cynllun yn effeithiol ac felly mae'n bwysig eu bod nhw'n rhan ffurfiol o gynllun wedi'i fabwysiadu. Mae llwybrau tai yn deillio o holl elfennau'r cyflenwad tai ac felly mae cysylltiad agos rhyngddynt â chynnal cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, sy'n golygu eu bod nhw'n ddull addas o fonitro'r cyflenwad tir hyd nes bod angen astudiaeth JHLAS i lywio'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

Bydd rhagor o wybodaeth am y materion hyn ar gael yn llawlyfr arfaethedig ar gyfer Cynlluniau Datblygu.

| **C12** | Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig cynnwys lwfans hyblygrwydd fel gofyniad polisi er mwyn ei gwneud hi'n haws i fodloni gofynion tai a gynlluniwyd? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Wrth ddyrannu tir ar gyfer tai yn eu cynlluniau datblygu, roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn annog awdurdodau lleol i gynnwys lwfans ychwanegol i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd pan nad yw safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y bwriadwyd er mwyn darparu posibilrwydd realistig o fodloni'r gofyniad tai a gynlluniwyd

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebion yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 7 | 11 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 15 | 4 | 3 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 17 | 13 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 3 | 7 | 0 |
| Arall | 6 | 5 | 9 |
| **Cyfanswm** | **53** | **44** | **16** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **47%** | **39%** | **14%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno ei bod hi'n bwysig cynnwys lwfans hyblyg fel gofyniad polisi er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflenwi tai a galluogi'r farchnad i ymateb.

Hefyd, mynegwyd y farn y dylai’r lwfans hwn gael ei benderfynu’n lleol, yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Galwodd rhai ymatebwyr am ganllawiau ar sut i gyfrifo’r lwfans.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn gwrthwynebu troi lwfans hyblygrwydd yn ofyniad polisi yn poeni bod y safleoedd ychwanegol hynny’n achosi ansicrwydd a dryswch i’r cyhoedd, nad ydynt yn angenrheidiol oherwydd y pwyslais cynyddol ar hyfywedd, ac yn lle hynny y dylid mynd i’r afael â thangyflawni trwy adolygu’r cynllun.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae fersiwn derfynol PCC yn cadarnhau y dylai’r lwfans hyblygrwydd ychwanegol gael ei phenderfynu’n lleol a bod yn briodol i’r ardal leol hefyd. Mae’r lwfansau hyn ar gyfer safleoedd na chawsant eu cyflwyno ar gyfer datblygiad fel y bwriadwyd yn ystod cyfnod y cynllun, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni’r gofynion tai a nodwyd gan awdurdodau cynllunio yn eu cynlluniau datblygu. Mae’n rhaid i bob safle sy’n rhan o’r lwfans hyblygrwydd fod mewn lleoliadau cynaliadwy, a bodloni gofynion polisi perthnasol y cynllun datblygu.

| | |
|---|---|
| **C13** | Ydych chi’n cytuno, er mwyn gallu darparu’r tai newydd sydd eu hangen ar Gymru mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ddyrannu safleoedd o feintiau gwahanol, yn cynnwys safleoedd bach, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer pob math o adeiladwr tai i gyfrannu at ddarparu’r tai arfaethedig? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Er mwyn darparu’r tai newydd mae angen amrywio’r dull o gyflawni drwy annog pob math o adeiladwr tai i gyfrannu, yn cynnwys y sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmer penodol. I hwyluso hyn, roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn nodi bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu safleoedd o feintiau gwahanol wrth ddyrannu safleoedd yn eu cynlluniau datblygu ac ystyried y cyfleoedd ar gyfer opsiynau hunan-adeiladu ar gyfer cwsmer penodol, yn cynnwys defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol.

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 10 | 8 | 0 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 14 | 5 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 6 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 18 | 13 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 3 | 1 |
| Arall | 8 | 4 | 6 |
| **Cyfanswm** | **64** | **36** | **10** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **58%** | **33%** | **9%** |

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai darparu cyfleoedd i adeiladwyr tai ar raddfa fach gynyddu'r gallu a'r ddarpariaeth tai. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amheuaeth am y goblygiadau o ran adnoddau i adrannau cynllunio awdurdodau lleol a'r gallu i fodloni'r gofynion lles cynllunio. Fe wnaeth un ymatebydd gynnig cofrestr o safleoedd bach fel ffordd amgen o annog pobl i ddarparu tai ar safleoedd bach.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Er mwyn darparu'r cartrefi sydd eu hangen ar bobl Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod hi'n bwysig ehangu'r dewisiadau cyflenwi a chynnig cyfleoedd i holl sectorau'r farchnad dai gyfrannu, gan gynnwys adeiladwyr bach, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmer penodol. Felly, mae PCC yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried darparu amrywiaeth o safleoedd cynaliadwy a safleoedd y gellir eu cyflawni trwy eu cynlluniau datblygu. Hefyd, mae PCC yn dweud y dylai awdurdodau cynllunio osod targed y cytunwyd arno'n lleol er mwyn cyflenwi tai ar safleoedd bach a chadw cofrestr o safleoedd addas i hwyluso hyn.

| **C14** | Er mwyn sicrhau bod safleoedd bach yn cael eu dyrannu, a ddylid cynnwys gofyniad i ganran benodol (e.e. 20%) o safleoedd fod yn rhai bach? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Gweler y wybodaeth gyd-destunol o dan Gwestiwn 13.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 9 | 8 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 0 | 2 | 19 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 2 | 6 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 10 | 20 | 4 |
| Y sector gwirfoddol | 2 | 7 | 0 |
| Arall | 3 | 7 | 10 |
| **Cyfanswm** | **19** | **51** | **41** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **17%** | **46%** | **37%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y byddai'n amhriodol i bolisi cenedlaethol osod targed ar ddarparu ar safleoedd bach; bod angen dealltwriaeth glir o farchnadoedd lleol ac felly y dylid gadael targed o'r fath i awdurdodau cynllunio lleol ei asesu. Pwysleisiwyd manteision o ran darparu a chynllunio arloesol hefyd.

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn gwrthwynebu pennu canran benodol o safleoedd bach yn poeni y gallai hyn ragfarnu dyrannu safleoedd mwy a allai fod yn fwy addas i fodloni

gofynion twf anheddiad neu ranbarth arbennig, ac y gallai arwain at ddyrannu safleoedd llai addas.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Fel y cyfeiriwyd uchod mewn ymateb i Gwestiwn 13, mae fersiwn derfynol PCC yn dweud y dylai awdurdodau cynllunio osod targed wedi'i benderfynu'n lleol er mwyn cyflenwi tai ar safleoedd bach ac y dylent gadw cofrestr o safleoedd addas i hwyluso hyn. Wrth osod y targed lleol hwn, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried eu strategaeth gyffredinol ar gyflenwi'r cartrefi sydd eu hangen ar eu cymunedau.

| C15 | Ydych chi'n cytuno y gall y sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmer penodol wneud cyfraniad pwysig at ddarparu tai, yn enwedig pan mae hynny'n gysylltiedig â'r defnydd o Orchmynion Datblygu Lleol a chodau dylunio? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Gweler y wybodaeth gyd-destunol o dan Gwestiwn 13.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 7 | 9 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 11 | 11 | 1 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 3 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 14 | 14 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 6 | 4 | 0 |
| Arall | 9 | 5 | 7 |
| **Cyfanswm** | **51** | **46** | **13** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **46%** | **42%** | **12%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno y gall tai wedi'u hunan-adeiladu a thai wedi'u hadeiladu ar gyfer cwsmer penodol wneud cyfraniad pwysig at gyflenwi tai, yn credu y byddai nifer y tai y byddai'r sector hwn yn ei ddarparu yn fach. Oherwydd hyn, roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu a ellir cyfiawnhau'r defnydd o Orchmynion Datblygu Lleol a chodau cynllunio o gofio'r costau cysylltiedig. Awgrymwyd y gallai polisïau cadarn ar ddylunio a

Chanllawiau Cynllunio Atodol neu ‘gynlluniau lleoedd’ neu friffiau datblygu safle-benodol fod yn fwy priodol a chyflymach i’w gweithredu.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae cynyddu cyfraniadau’r sector hunan-adeiladu ac adeiladu ar gyfer cwsmeriaid penodol yn rhan o’r dewisiadau i ehangu’r cyflenwad tai. Mater i’r awdurdodau cynllunio fydd penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol i awdurdodau cynllunio hwyluso’r sector hwn, wrth asesu eu hopsiynau cyflenwi tai lleol.

| | |
|---|---|
| **C16** | Ydych chi’n cytuno y byddai trafod ar sail ‘hawdd i’w deall’ yn helpu i wella ymddiriedaeth rhwng y partïon a hwyluso’r broses o ddarparu tai’r farchnad agored a thai fforddiadwy? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Er mwyn gallu darparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai’r farchnad agored mae’n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr drafod mewn ffordd agored a thryloyw. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar hyn yn Rhifyn 10 drafft PCC trwy gyfeirio at yr angen i drafodaethau o’r fath fod ar sail ‘hawdd i’w deall’.

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 12 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 16 | 7 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 12 | 18 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 1 | 8 | 0 |
| Arall | 7 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **44** | **57** | **10** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **40%** | **51%** | **9%** |

***Ymatebion i’r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd llawer o’r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno y byddai trafod ar sail ‘hawdd i’w deall’ yn helpu i wella ymddiriedaeth rhwng y partïon a hwyluso’r broses o ddarparu tai’r farchnad agored a thai fforddiadwy, yn cwestiynu a ellir gwneud hyn yn ymarferol o gofio bod buddiannau masnachol datblygwyr yn fater cyfrinachol. Roedd ymatebwyr o'r farn hefyd y gall dull ‘hawdd i’w ddeall’ fod yn dderbyniol yn y cam cais cynllunio, cyn belled bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae PCC yn hyrwyddo’r pwyslais ar asesu hyfywedd economaidd safleoedd trwy’r broses cynllun datblygu ac yn nodi mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid cynnal asesiadau hyfywedd yn y cam cais cynllunio. Lle’r ymgeisydd neu'r awdurdod cynllunio fydd dangos bod amgylchiadau o’r fath yn bodoli, ac os felly, bydd hi’n bwysig cael tryloywder gan bawb fel rhan o’r cyfiawnhad hwnnw.

| C17 | Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau i bwysleisio'r angen i ddarparu cyfleusterau cymunedol priodol wrth ystyried cynnig datblygu? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn cyflwyno newidiadau i bwysleisio'r angen am ddarpariaeth briodol o gyfleusterau cymunedol. Roedd yn dweud sut ddylai awdurdodau cynllunio ddatblygu dull strategol, tymor hir o ddarparu cyfleusterau cymunedol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Wrth ystyried cynigion datblygu dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cymunedau a sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn parhau i fynd i'r afael â gofynion trigolion yr ardal.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 6 | 12 | 0 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 5 | 10 | 5 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 6 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 18 | 12 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 11 | 2 | 0 |
| Arall | 12 | 5 | 3 |
| **Cyfanswm** | **58** | **44** | **11** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **51%** | **39%** | **10%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r pwyslais a roddwyd i ddarpariaeth briodol o gyfleusterau cymunedol yn y Polisi Cynllunio drafft, a chafwyd sylwadau am faterion lleol wrth ddarparu cyfleusterau newydd. Er enghraifft, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen i PCC gydnabod y gall problemau godi o ran darparu cyfleusterau o'r fath yn lleol, gan gynnwys hyfywedd ac ystyried y sail dystiolaeth dros gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys gallu'r cyfleusterau cyfredol ac anghenion y gymuned yn gyffredinol.

Cyfeiriodd ymatebwyr at y broses o ddarparu a rheoli cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r system gynllunio'n gyfrifol o reidrwydd am ddarparu mathau penodol o gyfleusterau cymunedol (fel mewn perthynas â darparu cyfleusterau iechyd), eu cynnal a'u hariannu'n barhaus. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i PCC gynnwys mwy o fanylion, eglurder a chyfeirio mwy at derminoleg 'cyfleusterau cymunedol', gan gynnwys eu lleoliad, hygyrchedd, y mathau o gyfleusterau y gallent eu cynnwys, ac ystyriaeth hefyd i golli cyfleusterau cymunedol cyfredol fel rhan o ddatblygiad newydd. Cyfeiriodd ychydig o'r ymatebwyr at fanteision posib darparu cyfleusterau cymunedol, yn enwedig o safbwynt y potensial i ddarparu mannau agored a hamdden er mwyn gwella bioamrywiaeth.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Rhifyn 10 PCC wedi'i ddiwygio ers y fersiwn ymgynghori ddrafft i sicrhau ei fod yn cyfeirio at y sail dystiolaeth leol (o ran gallu'r cyfleusterau cyfredol ac anghenion y gymuned yn gyffredinol) o ran awdurdodau cynllunio'n ystyried yr angen i ddarparu cyfleusterau cymunedol yn eu hardaloedd. Rydym yn nodi'r sylwadau a ddaeth i law am hyfywedd darparu cyfleusterau cymunedol, a chyfeirir at faterion hyfywedd mewn rhannau eraill o PCC.

Nid yw'r enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol sydd yn Rhifyn 10 drafft PCC i fod yn rhai rhagnodol, ac rydym o'r farn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sydd bwysicaf i'w cymunedau lleol nhw yn y cyd-destun hwn. Mae'r sylwadau am y broses o ddarparu a rheoli cyfleusterau cymunedol yn faterion lleol neu ehangach na'r hyn y gellir eu rhagnodi drwy bolisi cynllunio cenedlaethol. Mae PCC yn cyfeirio at botensial safleoedd agored a chyfleusterau hamdden i gyfrannu at fioamrywiaeth.

| C18 | Ydych chi'n cytuno y bydd rhoi mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth drafnidiaeth yn gwella lleoliad a chynllun datblygiadau newydd? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn diweddaru'r polisi trafnidiaeth i roi mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth drafnidiaeth, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a seiclo, yna trafnidiaeth gyhoeddus, yna cerbydau modur preifat yn olaf. Roedd yn dweud sut dylid lleoli a chynllunio datblygiad newydd yn unol â'r hierarchaeth hon.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebion yn ôl math | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 5 | 13 | 0 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 11 | 9 | 1 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 3 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 14 | 13 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 4 | 1 |
| Arall | 8 | 5 | 7 |
| **Cyfanswm** | **49** | **49** | **14** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **44%** | **44%** | **13%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o hierarchaeth drafnidiaeth ac yn croesawu'r ffaith bod rhagor o bwyslais ar hyn. Awgrymwyd y dylai rôl Cerbydau Allyriadau Isel Iawn fod yn gliriach yn yr hierarchaeth drafnidiaeth. Hefyd, awgrymwyd bod angen stori neu naratif cryfach i fframio geiriad y polisi, gyda phwyslais ar flaenoriaethu trafnidiaeth gynaliadwy dros ddulliau eraill o deithio.

Nid oedd rhai ymatebwyr yn cefnogi ymagwedd hierarchaidd at ddewisiadau trafnidiaeth, ac yn holi pa mor ddefnyddiol yw'r hierarchaeth drafnidiaeth wrth ystyried lleoliad datblygiad newydd. Holwyd am berthnasedd hynny mewn ardaloedd gwledig hefyd.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae'r hierarchaeth drafnidiaeth wedi'i chynnwys mewn adran newydd o PCC, sy'n cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r hierarchaeth wedi'i diweddaru hefyd i gynnwys Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Ychwanegwyd testun ategol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd am ddefnyddio'r hierarchaeth drafnidiaeth, gan gynnwys ei chyflwyno i ardaloedd gwledig.

| **C19** | Ydych chi'n cytuno y bydd y polisi'n galluogi'r system gynllunio i hwyluso teithio llesol a darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Cyflwynwyd rhagor o newidiadau i gryfhau'r amcan polisi o leihau teithio gan ddefnyddio cerbydau preifat a chynyddu cerdded, seiclo a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, yn Rhifyn 10 drafft PCC. Cafodd y polisi teithio llesol ei gryfhau a darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 eu hintegreiddio ymhellach yn y system gynllunio.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebion yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 14 | 0 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 11 | 10 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 15 | 8 | 6 |
| Y sector gwirfoddol | 7 | 5 | 1 |
| Arall | 4 | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **44** | **47** | **17** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **41%** | **44%** | **16%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd cefnogaeth i roi mwy o amlygrwydd i deithio llesol. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen newid radical i'r modd mae'n llefydd ni'n cael eu cynllunio a'u datblygu, gan symud oddi wrth y gymdeithas a'r diwylliant ceir-ganolog sydd wedi datblygu dros yr hanner canrif ddiwethaf. Awgrymwyd bod angen agwedd fwy cadarn ac uchelgeisiol i gyflawni hyn. Awgrymwyd y dylai teithio llesol, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, fod yn ystyriaeth allweddol wrth leoli datblygiad newydd, ac y dylai darpariaethau teithio llesol fod yn ofyniad

canolog a hanfodol mewn datblygiadau newydd, yn hytrach na rhywbeth sy’n cael ei ystyried yn ddewisol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroi i sicrhau bod y system gynllunio yn hyrwyddo ac yn cefnogi teithio llesol, gan gynnwys rhoi’r Ddeddf Teithio Llesol ar waith. Mae PCC wedi’i ddiweddaru er mwyn cryfhau a phwysleisio ymhellach y dylai’r ddarpariaeth teithio llesol fod yn elfen hanfodol o gynlluniau datblygu, ac y dylai’r system gynllunio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cynllunio a’u hintegreiddio ag aneddiadau cyfredol mewn ffordd sy’n golygu bod teithio llesol yn ddewis ymarferol a deniadol i deithio.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol ar y mater hwn hefyd. Mae’r llythyr yn nodi’r disgwyliad i gynlluniau datblygu nodi llwybrau teithio llesol, gan gynnwys rhai a nodwyd yn y Mapiau Rhwydwaith Integredig sy’n ofynnol o dan y Ddeddf Teithio Llesol, a helpu i’w cyflawni. Mae’r llythyr yn nodi hefyd, fel rhan o’r broses o ddewis a dethol safleoedd datblygu’r dyfodol, y dylid rhoi blaenoriaeth i safleoedd y gellir eu cysylltu’n hawdd â llwybrau teithio llesol cyfredol neu rwydweithiau’r dyfodol.

| | |
|---|---|
| **C20** | Ydych chi’n cytuno y bydd y polisi’n galluogi i strydoedd wedi’u cynllunio’n dda gael eu creu? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar greu strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda sy'n rhoi pobl yn gyntaf. Roedd y polisi diwygiedig yn nodi’n glir bod disgwyl i gynllun strydoedd newydd neu ddatblygedig adlewyrchu egwyddorion y Llawlyfr Strydoedd.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 3 | 12 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 10 | 10 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 3 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 11 | 16 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 2 | 6 | 3 |
| Arall | 5 | 6 | 7 |
| **Cyfanswm** | **35** | **53** | **19** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **33%** | **50%** | **18%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Cafwyd croeso i'r polisi ar y cyfan, yn enwedig y cyfeiriad mwy penodol at y Llawlyfr Strydoedd. Ond roedd rhai'n teimlo y byddai'r polisi'n elwa o gael mwy o ddeunydd am ddylunio strydoedd.

Dywedodd nifer o ymatebwyr bod dyluniad a chynllun datblygiadau newydd yn aml iawn yn seiliedig ar ddyluniadau stryd safonol wedi'u peiriannu sy'n canolbwyntio ar y car preifat. Er mwyn creu strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n rhoi'r ystyriaeth bennaf i bobl bob tro, dywedwyd bod angen newid sylfaenol yn y ffordd y mae pawb, gan gynnwys peirianwyr priffyrdd a datblygwyr, yn mynd ati i ddylunio strydoedd.

Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod yn poeni am effaith y safonau parcio uchaf ar gynllun strydoedd. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at broblemau parcio lleol a cherbydau'n dominyddu'r stryd.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae PCC wedi'i ddiweddaru i roi mwy o bwyslais ar y disgwyl i greu strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n rhoi pobl yn gyntaf. Mae'r polisi'n datgan y dylai dyluniad strydoedd newydd neu well ymateb i egwyddorion dylunio trefol, gan gynnwys y rheini yn y Llawlyfr Strydoedd a Teithio Llesol: Canllawiau Dylunio, a pheidio â chadw at y safonau llym a nodir, er enghraifft, ym Mwletin Dylunio 32. Mae angen mynd ati mewn ffordd amlddisgyblaethol i sicrhau bod dyluniad strydoedd yn cyfrannu at greu lleoedd o ansawdd uchel a dylai awdurdodau cynllunio herio cynigion datblygu sy'n cynnwys dyluniadau stryd safonol, rhagnodedig a pheirianyddol eu ffocws, sy'n ofni risg.

Mae PCC yn cydnabod y gall sut a ble mae ceir yn cael eu parcio fod yn ffactor bwysig sy'n dylanwadu ar ansawdd lle. Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i'w gwneud yn gliriach y dylid dilyn dyluniad wrth ddarparu mannau parcio i geir. Dylunio da yw'r allwedd i sicrhau lefelau is o barcio, heb gerbydau'n dominyddu'r stryd ac i osgoi anhwylustod i bobl sy'n cerdded a seiclo.

| **C21** | Ydych chi yn cytuno â'r gofyniad i ddatblygiad preswyl gael isafswm o 10% o fannau parcio ceir gyda phwyntiau gwefru ULEV? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Argraffiad 10 drafft PCC yn cyflwyno polisi newydd i annog pobl i ddefnyddio Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV). Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i isafswm o 10% o fannau parcio ceir di-breswyl fod â phwyntiau gwefru ULEV. Y bwriad oedd bod yn hyblyg yn hyn o beth i sicrhau bod lefel, lleoliad a'r math o ddarpariaeth wefru yn briodol ar gyfer y cynllun ac amgylchiadau lleol.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 3 | 12 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 11 | 4 | 6 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 3 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 11 | 16 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 2 | 5 | 2 |
| Arall | 5 | 9 | 5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **36** | **49** | **16** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **36%** | **49%** | **16%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Ar y cyfan, cefnogwyd cyflwyno polisi ar ULEV. Cydnabuwyd manteision ULEV a bod diffyg mannau gwefru. Er hynny, nid oedd pawb yn cefnogi. Dywedodd rhai eu bod yn bryderus y gallai hyn roi blaenoriaeth i geir preifat ac o bosib annog pobl i ddefnyddio ceir ac nad yw'r dechnoleg wedi cael ei phrofi eto.

Cafwyd sawl sylw'n cwestiynu'r gofyn i osod mannau gwefru yn o leiaf 10% o'r mannau parcio ceir di-breswyl. Dywedodd rhai bod 10% yn ganran fympwyol tra bod eraill yn credu ei fod yn ffigur rhesymol ac yn fan cychwyn da. Awgrymwyd hefyd y dylid bod gofyn penodol ar gyfer datblygiadau preswyl. Pwysleisiwyd bod angen dylunio a lleoli mannau gwefru'n dda.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae gan gerbydau allyriadau isel iawn rôl gynyddol bwysig o ran datgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin. Mae PCC yn adlewyrchu hynny. Mae'n gofyn am fannau gwefru yn 10% o fannau parcio datblygiadau dibreswyl, ond dylai'r system gynllunio annog a chefnogi darparu seilwaith gwefru cerbydau ULEV ym mhob datblygiad newydd. Mae PCC wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod cynllunio i ddarparu mannau gwefru'n rhan o ddyluniad cyfan datblygiad. Dywed na ddylai mannau gwefru greu rhwystr i bobl sy'n cerdded a seiclo, dylent allu gwrthsefyll fandaliaeth a dylid eu gosod lle ceir goleuni da a gwyliadwriaeth naturiol. Nid yw'r polisi hwn yn ymwneud â datblygiadau preswyl gan y bydd y Rheoliadau Adeiladu yn delio â hynny.

| | |
|---|---|
| **C23** | Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau i adran telathrebu fersiwn ddrafft Polisi Cynllunio Cymru? Os na, pa newidiadau y gellid eu gwneud i wneud y sefyllfa'n fwy eglur? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Gwnaeth Argraffiad 10 drafft PCC ddiweddaru'r darn am delathrebu symudol yn PCC i gydnabod manteision economaidd pwysig cael rhwydweithiau cyfathrebu da, dibynadwy a chyflym. Anogai awdurdodau cynllunio a gweithredwyr rhwydweithiau i gydweithio i nodi'r ardaloedd hynny sy'n brin eu cysylltedd a sut y gallai'r system gynllunio helpu yn hyn o beth. Ceisiai hefyd esbonio'r sefyllfa ynghylch datblygiadau ffonau symudol ac iechyd.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 14 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 4 | 12 | 4 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 3 | 6 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / | 13 | 16 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwpiau buddiant | | | |
| Y sector gwirfoddol | 1 | 9 | 0 |
| Arall | 4 | 10 | 4 |
| **Cyfanswm** | **26** | **67** | **9** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **25%** | **66%** | **9%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn bod telathrebu (gwasanaethau symudol / band eang) yn wasanaethau hanfodol pob dydd, cyn bwysiced â chyfleustodau eraill, a dylid eu hystyried yn elfen bwysig o'r system gynllunio. Ond yn amod o hynny yw na ddylai beryglu tirwedd ac ardaloedd gwledig Cymru oherwydd yr effeithiau diofyn amdanynt a achosir gan osodiadau niferus.

Roedd rhai o'r ymatebwyr am weld mwy o bwyslais yn cael ei roi i ystyried rhannu safleoedd, er mwyn lleihau'r angen am safleoedd newydd. Awgrymwyd hefyd y dylid newid teitl yr adran i "Cyfathrebu Electronig" i adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol y mae'r maes polisi hwn yn perthyn iddo.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Fel ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law, mae teitl yr adran wedi'i newid i 'Cyfathrebu Electronig'. Rydym hefyd wedi cryfhau geiriad yr adran er mwyn gofyn i awdurdodau lleol weithio mewn ffordd fwy rhagweithiol mewn ardaloedd lle mae'r signal symudol yn wan neu ddim yn bod. Cryfhawyd yr adran am rannu mastiau i ddweud bod angen cyfiawnhau'r angen am rannu mewn ceisiadau. Mae'r testun newydd yn dweud hefyd y dylai datblygwyr siarad ag awdurdodau cynllunio a'r gymuned i chwilio am leoliadau posib ar gyfer seilwaith newydd sy'n dod â manteision ychwanegol.

Mae'r adran am fand eang llinell sefydlog hefyd wedi'i newid i ddweud y dylai cynigion datblygu newydd gynnwys darparu gwasanaethau band eang, fel gwasanaeth hanfodol, o'r dechrau.

| | |
|---|---|
| **C24** | Ydych chi’n cytuno gyda lleoli’r adran ar seilwaith cludiant yn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Argraffiad 10 drafft PPC yn crynhoi seilwaith trafnidiaeth gyda mathau eraill o seilwaith yn y bennod ar Leoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Roedd yr adran hon yn cynnwys polisi cynllunio ar y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, y rhwydwaith ffyrdd strategol, porthladdoedd, meysydd awyr a chludo nwyddau. Ceisiai'r polisi sicrhau bod y system gynllunio'n hwyluso darparu, datgarboneiddio a gwella'r seilwaith trafnidiaeth mewn ffordd a fydd yn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, ac yn hyrwyddo cludiant cynaliadwy. Cafodd y polisi ei ddylunio i'w ddarllen ar y cyd â'r polisi cynllunio trafnidiaeth trosfwaol a geir yn y bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl | Cytuno | Ddim yn cytuno nac | Anghytuno |
|---|---|---|---|

| math | | yn anghytuno | |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 11 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 8 | 3 | 9 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 3 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 13 | 13 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 1 | 6 | 4 |
| Arall | 6 | 7 | 6 |
| **Cyfanswm** | **35** | **45** | **25** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **33%** | **43%** | **24%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Cafwyd barn gymysg ynghylch cynnwys seilwaith trafnidiaeth yn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai dyma oedd y lle iawn ar ei chyfer gan gydnabod y byddai PPC newydd yn gofyn am ffordd newydd o weithio. Ond roedd nifer o ymatebwyr yn credu y byddai'n well delio â phopeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn yr un bennod.

Mynegwyd pryderon y gallai rhannu polisi trafnidiaeth ryddhau prosiectau mawr fel cynlluniau ffyrdd newydd o'u cyfrifoldeb i ystyried cynaliadwyedd sy'n rhan o'r polisi trafnidiaeth ehangach. Awgrymwyd y gellid ychwanegu adran newydd am gynaliadwyedd trafnidiaeth.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Bydd seilwaith trafnidiaeth, sy'n ymdrin â symudiad strategol pobl a nwyddau, yn aros yn y bennod Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Mae'r polisi trafnidiaeth trosfwaol wedi'i symud i ddechrau'r bennod Lleoedd Actif a Chymdeithasol ac mae adran newydd am drafnidiaeth gynaliadwy wedi'i hychwanegu sy'n ymdrin â seilwaith trafnidiaeth.

| **C25** | Ydych chi’n cytuno gyda’r gofynion newydd ar gyfer cynllunio ynni adnewyddadwy lleol fel y maent yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Ar ôl pennu targedau ynni adnewyddadwy i Gymru, cyflwynodd Argraffiad 10 drafft PPC ofyn bod awdurdodau lleol yn pennu targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn eu cynlluniau datblygu. Mae'r polisi drafft yn gofyn yn benodol hefyd i awdurdodau cynllunio nodi'r ardaloedd yn eu cynlluniau datblygu lle caniateir datblygiadau ynni adnewyddadwy.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 8 | 7 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 4 | 7 | 11 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 13 | 17 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 4 | 5 | 3 |
| Arall | 7 | 7 | 5 |
| **Cyfanswm** | **41** | **47** | **24** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **37%** | **42%** | **21%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno polisi bod awdurdodau lleol yn pennu targedau ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau datblygu. Ond dywedodd yr ymatebwyr y byddai angen i'r targedau fod yn ystyrlon a hwyluso cynnal prosiectau ymarferol. O ran y polisi ar awdurdodau cynllunio'n creu polisïau gofodol yn eu cynlluniau datblygu, dywedodd ymatebwyr y dylai hyn ddibynnu ar y casgliadau y bydd yr Asesiad o Ynni Adnewyddadwy yn eu bwydo iddynt. Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y ddau, sef y gallai'r arfau polisi hyn gael eu defnyddio i gyfyngu ar botensial ynni adnewyddadwy yn hytrach na'r bwriad i gynyddu'r potensial.

Tynnwyd sylw y gallai fod yn fanteisiol pe bai awdurdodau cynllunio'n gweithio mewn ffordd ranbarthol i ddatblygu tystiolaeth a strategaeth ynni a defnyddio hynny i bennu targedau a nodi ardaloedd chwilio ynni adnewyddadwy.

Cynigiodd nifer o ymatebwyr sylw am Arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr, sy'n rhoi arweiniad ar sut y gellid datblygu sylfaen o dystiolaeth. Gofynnwyd am iddo gael ei ddiweddaru, a mynegwyd pryderon hefyd y gallai gael ei ddefnyddio'n rhy haearnaidd heb adlewyrchu amgylchiadau lleol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Bwriedir targedau a pholisïau gofodol gan awdurdodau cynllunio i gefnogi, arwain a chynyddu potensial datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai'r polisïau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ardal yr awdurdod cynllunio. Mae'r Llawlyfr i Gynllunwyr yn awgrymu ffordd ar gyfer datblygu sylfaen o dystiolaeth, ond dylid ei addasu i amgylchiadau lleol er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd am ynni adnewyddadwy ac ni ddylid defnyddio rhagdybiaethau o ran methodoleg i gyfyngu ar yr adnodd a nodir. Mae PCC yn crisialu hyn. Mae hefyd yn annog arloesi a bod awdurdodau cynllunio yn datblygu sylfaen o dystiolaeth a pholisïau sy'n addas i'w hardal. Mae PPC wedi'i ddiweddaru hefyd i nodi y gallai fod manteision i awdurdodau cynllunio o weithio gyda'i gilydd fesul rhanbarth.

| | |
|---|---|
| **C26** | Ydych chi’n cytuno gyda’r defnydd o’r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio fel sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. |

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Argraffiad 10 drafft PCC yn cynnwys yr holl bolisïau ynni ac adeiladau cynaliadwy yn yr un adran i dynnu sylw at natur integredig y materion hyn. Dangosir hyn drwy'r defnydd o hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio sy'n egluro'r dull rydym yn ei ffafrio ar gyfer cynllunio ynni i lywio dewisiadau cysylltiedig ag ynni yn y system gynllunio.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 8 | 9 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 9 | 6 | 5 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 7 | 2 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 15 | 14 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 7 | 8 | 0 |
| Arall | 6 | 8 | 5 |
| **Cyfanswm** | **52** | **47** | **12** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **47%** | **42%** | **11%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Gwelwyd cefnogaeth arwyddocaol i egwyddor yr hierarchaeth ynni. Fodd bynnag, holodd rhai ymatebwyr am rôl y system gynllunio ac awdurdodau cynllunio wrth roi'r polisi ar waith.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion newid yn yr hinsawdd, yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio. Mae'r polisïau yn adran ynni PCC yn esbonio sut y dylai'r system gynllunio a'r awdurdodau cynllunio gefnogi'r amcan hwn a rhoi'r hierarchaeth ynni ar waith. Yn ogystal â chefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, mae gan y system gynllunio ran bwysig hefyd o ran lleihau'r galw am ynni a defnyddio ynni'n effeithlon, trwy bennu dyluniad a lleoliad datblygiadau newydd. Mae gan bob agwedd o'r hierarchaeth ynni eu rhan i'w chwarae i gyd yr un pryd i helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio.

| **C27** | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer glo ac olew a nwy ar y tir yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. Ystyriwch bob ffynhonnell ar wahân. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Argraffiad 10 drafft PPC yn rhoi mwynau ynni yn yr adran ynni ac yn eu dileu o'r adran fwynau yn Argraffiad 9 PCC. Gosodwyd echdynnu olew a nwy'r tir a glo at ddiben cynhyrchu ynni ar waelod yr hierarchaeth ynni cynllunio, gan adlewyrchu eu safle fel y ffynhonnell tanwydd a ffefrir leiaf ar gyfer cynhyrchu pŵer.

Cafodd cynnwys y polisi ei newid er mwyn cyfateb i gynlluniau'r DU i raddol roi'r gorau i gynhyrchu ynni o lo a dyheadau blaengar Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hinsawdd sy'n

newid ac osgoi cael ei chlymu i echdynnu tanwydd ffosil yn y dyfodol. Cafodd polisi cynllunio ei newid i gyfyngu ar echdynnu glo gan ddatgan na ddylai caniatâd cynllunio gael ei roi. Gosodwyd trothwyon uwch yn y polisi ar olew a nwy'r tir wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

**Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol**

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 10 | 4 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 10 | 7 | 4 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 10 | 17 | 2 |
| Y sector gwirfoddol | 5 | 5 | 0 |
| Arall | 4 | 10 | 3 |
| **Cyfanswm** | **34** | **53** | **13** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **34%** | **53%** | **13%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Mynegwyd teimladau cryfion nad yw echdynnu mwynau ynni yn fuddiol i'r cyhoedd; y dylid gadael glo a nwy yn y ddaear ac er y gallai chwilio am olew a nwy fod o gymorth mewn economi is ei charbon, mae'n groes i'r nod o ddatgarboneiddio'r economi.

Er hynny, roedd yna nifer fach yn dal i fod o blaid echdynnu tanwyddau ffosil.

Roedd rhai'n teimlo y dylai PCC gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn chwilio pellach am bob tanwydd ffosil a chefnogi datblygiad ffynonellau amgen amgylcheddol gadarn er mwyn cyrraedd targedau carbon isel Cymru ac y dylai'r polisi i gyfyngu ar gloddio glo brig gynnwys drilio archwiliadol a chynigion anghonfensiynol ar gyfer olew a nwy.

Roedd ymatebwyr eraill ar y llaw arall yn credu y gallai atebion eraill fel systemau gwresogi ardal helpu i leihau'r defnydd o nwy.

Dywedodd ymatebwyr fod glo, yn ogystal â chael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill, gan gynnwys y diwydiant dur ac yn y cartref ac y gallai fod rhai manteision codi glo mewn ardaloedd lle mae hanes y diwydiant glo wedi gadael tir ansad.

Roedd rhai'n holi pam na ddylid caniatáu cloddio am lo ac y dylai gael ei ddiogelu.  Roedd rhai'n gweld y byddai elw tymor hir o wneud.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y rhannau am olew a nwy yn y bennod hon yn ddryslyd.

Mynegwyd cefnogaeth gref i adfer gweithfeydd cloddio i'w cyflwr naturiol ac argymhellir bod rhagdybiaeth gref o blaid bioamrywiaeth fel ôlddefnydd.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Derbynnir bod glo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill heblaw am gynhyrchu ynni. Roedd y drafft eisoes yn adlewyrchu hynny ond mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu hyn ac ystyried rhai manteision cloddio am lo i ddiogelu'r cyhoedd ar dir ansad yn ardaloedd hen lofeydd. Mae'r testun yn ei gwneud yn glir y ceir mwy o wybodaeth am dir ansad ym mhennod 6 PCC ac yn MTAN 2.

O ran diogelu adnoddau glo, cydnabyddir bod y polisi fel ag y mae wedi'i ysgrifennu yn y papur ymgynghori yn ymddangos fel pe bai'n gwrth-ddweud ei hun. Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru i gynnig hyblygrwydd. Er efallai nad yw hyn yn ddelfrydol, fe all y bydd angen cadw'r cwestiwn yn agored ar adeg o newid yn y sector ynni.

Mae paragraff ychwanegol wedi'i gynnwys o dan y camau olew a nwy i esbonio'n well y broses a'r camau y byddai awdurdodau cynllunio fel arfer yn eu cymryd wrth ddelio â chais cynllunio ar gyfer datblygu nwy ac olew'r tir.

O ran y sylwadau a wnaed am adfer ac ôlddefnydd, mae PCC yn dweud mai un o'r prif egwyddorion digyfaddawd o ran cloddio am fwynau yw sicrhau gwaith adfer ac ôl-ofal o'r ansawdd uchaf er mwyn osgoi dadfeiliad ac er mwyn dod â manteision gweladwy i gymunedau, treftadaeth a/neu natur, gan gynnwys ôl-ddefnydd buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

Ychwanegwyd cyfeiriad at gludo mwynau ar ddŵr i adlewyrchu sylwadau gan ymatebwyr.

| **C28** | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd i hyrwyddo'r economi gylchol a'i gysylltiad â dulliau cynllunio gwastraff a mwynau traddodiadol fel sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Cafodd yr economi gylchol ei chyflwyno i Rifyn 10 drafft PPC i annog a hyrwyddo gweithredu o'i phlaid ac i ystyried y deunydd a ddewisir a'r adnoddau a ddefnyddir yn gynnar yn y broses gynllunio ac i sbarduno mwy o weithredu'n uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff. Credwyd y byddai gwneud y defnydd gorau o adnoddau'n arwain at ddewisiadau gwell o ran lleoliad safle, trin safle a dyluniadau. Teimlwyd hefyd ar lefel strategol bod angen cefnogi'r seilwaith sydd ei angen i symud tuag at economi gylchol.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 3 | 10 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 6 | 9 | 5 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 6 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / | 18 | 14 | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwpiau buddiant | | | |
| Y sector gwirfoddol | 7 | 6 | 1 |
| Arall | 6 | 8 | 4 |
| **Cyfanswm** | **46** | **51** | **13** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **42%** | **46%** | **12%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd yn glir o'r ymatebion bod lefelau gwahanol o ddeall beth yw'r economi gylchol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o amlygrwydd i'r cysyniad, bod angen ei farchnata'n well ac na ddylid gwneud yn fach o bwysigrwydd yr economi gylchol. Dywedodd un ymatebydd fod yr economi gylchol yn rhywbeth y mae'r system gynllunio eisoes yn ei wneud ond bod lle i wella.

Serch hynny, roedd llawer o'r ymatebion yn gadarnhaol ynghylch ei gynnwys gan nodi pwysigrwydd cael gwared ar "wastraff" i'r graddau pellaf posibl a bod presenoldeb yr economi gylchol yn annog hyrwyddo ystyried y dewis o ddeunyddiau yn gynnar yn y broses gynllunio.

Ond cafwyd rhai ymatebwyr yn gofidio bod y cynigion yn mynd y tu hwnt i gylch gwaith ac arbenigedd y system gynllunio a'i fod efallai yn rhy uchelgeisiol. Law yn llaw â hynny, roedd rhai'n teimlo y byddai'n anodd ei roi ar waith.

Cafwyd nifer o sylwadau defnyddiol am yr adran fwynau gydag awgrymiadau gan gynnwys eu diogelu ac estyniadau.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Mae'r geiriad yn y bennod wedi cael ei newid a'i wneud yn fwy eglur a lle gellir, ei symleiddio.

Mae disgrifiad llawn o'r economi gylchol wedi cael ei darparu ac mae cyfeiriadau wedi'u gwneud yn PCC at ymchwil a gynhaliwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd. Mae'r ymchwil yn dangos manteision yr economi gylchol a pha mor ymarferol y maent trwy enghreifftiau o arfer gorau.

Cafodd awgrym ei wneud ynghylch creu banciau lleol o bridd heb ei halogi lle gall cymunedau lleol ddefnyddio ac ailddefnyddio adnoddau. Er nad oes cyfeiriad penodol at fanciau pridd, mae PCC yn pledio achos defnyddio "chwareli trefol" a chyfleusterau ailbrosesu er mwyn osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio'n effeithiol oherwydd diffyg cyfleusterau.

Mae'r paragraff dan sylw, 4.167 yn Argraffiad 10 drafft (paragraff 5.11.21 erbyn hyn), wedi cael ei ailysgrifennu rhag iddo gael ei weld fel rhestr o'r deunyddiau a ffefrir. Ei ddiben yw hyrwyddo'r deunydd mwyaf priodol sydd ar gael er mwyn helpu i rwystro disbyddu adnoddau na ellir eu hadnewyddu ac i osgoi creu gwastraff.

Mae paragraff 14.3.6 o Argraffiad 9 PPC wedi'i roi yn ôl yn Argraffiad 10 yn dilyn sylwadau ymatebwyr.

Mae nifer o awgrymiadau wedi'u hadlewyrchu ynddo fel problemau argaeledd deunydd gwastraff a'u cyflenwi, cyfeiriad at gludo mwynau ar ddŵr a diffyg tystiolaeth am y ffordd hon o weithio.

O ran estyn gwaith mwynau, nodwyd y gallai hynny ddod â mwy o fanteision na datblygiad newydd. Mae paragraff newydd wedi'i roi yn argraffiad 10 sy'n cydnabod, er enghraifft, fuddiannau rhannu seilwaith ar estyniad yn hytrach na gweithio safle maes glas newydd.

| C30 | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â thirwedd, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Argraffiad 10 drafft PCC yn cadw ergyd debyg i'r polisi yn Argraffiad 9 PCC, gan gadw'r ffocws ar warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Cafodd y gofynion deddfwriaethol (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Amgylchedd) eu cryfhau, eu hymhelaethu a'u hailgyflwyno. Roedd y drafft yn cynnwys cyfeiriad at gydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau ehangach a ddaw o fabwysiadu ymagwedd o'r fath a seilwaith gwyrdd.

Roedd newidiadau penodol allweddol yn cynnwys manylion ychwanegol ar dirweddau lleol, gwybodaeth am geoamrywiaeth a thirwedd, amlinellu dull cynllunio ar gyfer gofynion dyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, yn cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar 'fantais net' a dim colled sylweddol o ran bioamrywiaeth sylweddol o TAN 5, a rhoi cydnabyddiaeth amlwg i seilwaith gwyrdd a'r gofyn i baratoi asesiadau.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 9 | 5 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 4 | 9 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 5 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 16 | 14 | 3 |
| Y sector gwirfoddol | 5 | 6 | 4 |
| Arall | 6 | 5 | 11 |
| **Cyfanswm** | **40** | **43** | **32** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **35%** | **37%** | **28%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan yn gadarnhaol ond yn amodol; gofynnwyd am egluro agweddau penodol ac am fwy o arweiniad ar y manylion. Cwestiynwyd strwythur a chyflwyniad y pynciau polisi hyn fel yr oeddynt wedi'u drafftio. Teimlwyd nad oedd y pwysoliad yn gymesur. Er enghraifft, gan fod yr adran ar Seilwaith Gwyrdd mor sylfaenol o

bwysig i fwrw'r gwaith ar greu lleoedd yn ei flaen, teimlwyd y dylai gael ei roi ym mlaen y ddogfen. Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i 'fantais net' y polisi bioamrywiaeth ond codwyd pryderon ynghylch y gwrthdaro rhwng hynny ag egwyddorion datblygu sydd wedi ennill eu plwyf ac ag ymarferoldeb rhoi 'dim colled arwyddocaol' ar waith a'i fonitro. Beirniadwyd y diffyg arweiniad ynghylch Asesu Rheoliadau Cynefinoedd. Cwestiynwyd strwythur adran y polisi ar dirweddau a'r diffyg ystyriaeth o'r effeithiau ar leoliad tirwedd dynodedig. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch y polisi 'mae pob tirwedd yn bwysig'. Cefnogwyd y polisi ar Asesu Seilwaith Gwyrdd; ond mynegodd awdurdodau cynllunio lleol eu pryderon ynghylch effaith y polisi newydd ar adnoddau. I gloi, mynegwyd pryderon (cafwyd dros 2,000 o sylwadau unigol) ynghylch y geiriad i gefnogi gwarchod coetir hynafol.

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried manylion y pryderon a godwyd ac yn fersiwn derfynol y PCC, caiff polisïau eu tynhau a'u gwneud yn gliriach pan welir bod angen. Er enghraifft, wrth ystyried yr agweddau ar gydnerthedd ecosystemau a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae mwy o fanylion wedi'u rhoi ynghylch sut y gall ymatebion cynllunio helpu o ran y nodweddion hyn. Mae'r dull STEPwise o gynnal a gwella bioamrywiaeth wedi cael ei aildrefnu, ei dynhau a'i gryfhau mewn mannau. Mae paragraff wedi'i ychwanegu i ddatrys y diffyg arweiniad ar yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd. Gwrthodir yr haeriad bod y polisi 'mae pob tirwedd yn bwysig' yn ddiffygiol ac yn ddiangen. Y polisi hwn yw sylfaen y dull creu lleoedd yn PCC; mae gan bob tirwedd gyfraniad annatod at ein dealltwriaeth o naws am le. Yn olaf, mae'r paragraff ar warchod coetir hynafol wedi cael ei ailddrafftio; fel ymateb i'r pryderon ynghylch llacrwydd y geiriad. Mae'r polisi'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i warchod coetiroedd hynafol.

| C31 | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas ag ardaloedd arfordirol unigryw? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

### *Cyd-destun y Cwestiwn*

Nid yw'r hanfodion sy'n sail i'r polisi yn Argraffiad 10 drafft PCC yn wahanol i'r hyn a geir yn Argraffiad 9 PCC. Roedd rhai elfennau ychwanegol gan gynnwys gwahanu nodweddion unigryw ardaloedd arfordirol a'u hesbonio'n fanylach, mwy o bwyslais ar rôl Cynlluniau Rheoli Traethlin a rhoi ymatebion ac ystyriaeth gynllunio briodol o rôl yr arfordir a'i reolaeth, gan ystyried hefyd fuddiannau a llesiant ehangach.

### *Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol*

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 3 | 9 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 6 | 11 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 14 | 14 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 1 | 7 | 1 |
| Arall | 8 | 8 | 2 |
| **Cyfanswm** | **37** | **53** | **8** |

| % *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | 38% | 54% | 8% |
|---|---|---|---|

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu'r polisi ar nodweddion arfordirol fel yr oedd wedi'i ddiweddaru. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau'n ymdrin â'r ychwanegiadau neu'n gofyn am esboniadau i wella'r polisi.

Yn arbennig, cafwyd galw am gael mwy o arweiniad ynghylch y berthynas rhwng PCC a'r Cynllun Morol, morweddau ac asesiadau o'r morweddau, manylion pellach am natur Cynlluniau Rheoli Traethlin a faint o bwysoliad i roi iddynt. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo na fyddai gwrthwynebu newid trwy roi gormod o bwyslais ar ddiogelu/gwarchod yn arwain at adfer bywiogrwydd cymunedau arfordirol.

Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau manwl gan gynnwys yr angen i gyfeirio at risgiau a manteision newid cymalog, y dylid gwarchod cynefinoedd unigryw, y dylid gweithio'n benodol o blaid geoamrywiaeth ac y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r amgylchedd hanesyddol. Teimlwyd yn arbennig bod y diffyg cyfeiriad at y rhyngwelededd rhwng tir a môr yn bwynt pwysig sydd wedi'i hepgor.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Ar sail y sylwadau a ddaeth i law, mae rhagor o destun ac esboniadau wedi'u hymgorffori yn y polisi terfynol. Mae'r newidiadau hyn yn gwella'r polisi ac yn ymwneud yn arbennig â chyfeirio at y Cynllun Morol, darparu rhagor o fanylion Cynlluniau Rheoli Traethlin, cyfeirio at forweddau a rhyngwelededd a pholisi ychwanegol ar newid cymalog i ddatblygiad a risg.

| **C32** | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas ag ansawdd aer a seinwedd? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn cadw prif egwyddorion polisi Rhifyn 9 PCC, ond maent wedi'u datblygu a'u hymhelaethu fel rhan o fframwaith cadarnach ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd aer a sŵn ar sail atal dros y tymor hir a ffyrdd integredig o weithio a chyfrannu at nodau llesiant. Cyflwynwyd y cysyniad o seinwedd i gydnabod cyfraniad cadarnhaol sŵn fel rhan o'r profiad o le yn hytrach na chydnabod sŵn fel ffynhonnell llygredd yn unig.

Roedd Rhifyn 10 drafft PCC yn cydnabod nad oes y fath beth â lefelau diogel o lygredd aer, y gall y system gynllunio fod yn ffordd gadarnhaol o leihau lefelau cyfartalog llygredd, y dylid gwneud pethau o safbwynt y tymor hir, bod llygredd aer a sŵn yn dod o'r un ffynhonnell yn aml ac y gellid mynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd a bod egwyddor 'cyfrwng newid' yn cael ei gyflwyno'n benodol, yn arbennig i'r graddau bod yr egwyddor hwn yn hanfodol i ddelio â chydweddoldeb gweithgareddau a defnyddiau.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 12 | 1 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 8 | 10 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 8 | 2 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 11 | 18 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 3 | 0 |
| Arall | 5 | 9 | 5 |
| **Cyfanswm** | **42** | **54** | **10** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **40%** | **51%** | **9%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

A siarad yn gyffredinol, croesawyd y polisi fel gwelliant sylweddol ac yn gam ymlaen o'i gymharu â'r polisi presennol. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys rhoi mwy o gydnabyddiaeth i rôl ataliol cynllunio, y cysyniad o seinwedd, y gydnabyddiaeth nad yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau diogel, y cyfeiriadau at lesiant ac iechyd cyhoeddus fel elfennau allweddol o'r polisi a'r cyfeiriadau at seilwaith gwyrdd a'i rôl liniarol. Fel gwrthbwynt i'r gefnogaeth gyffredinol, gofynnwyd am fwy o arweiniad i'w helpu i'w roi ar waith, gan gynnwys croesgyfeirio gwell i bolisïau eraill fel teithio llesol ac asesu seinwedd.

Teimlai nifer fach o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol trin llygredd aer a sŵn ar wahân, er bod rhesymeg dros ddod â nhw ynghyd. Yn ogystal, teimlwyd bod y polisi'n rhoi gormod o sylw i effeithiau trafnidiaeth y ffyrdd. Teimlwyd bod ansawdd aer yn bwnc arbennig o anodd i ymdrin ag e a chwestiynwyd a oedd y polisi'n cynnig unrhyw ateb ymarferol, er y nodwyd ei fod o leiaf yn cynnig cyfle i gynnal trafodaeth. Teimlwyd bod angen arweiniad, hynny ar lefel y cynllun a'r cynnig unigol, yn enwedig er mwyn gallu datrys gwrthdaro. Gwnaed rhai awgrymiadau manwl y bydd angen rhoi mwy o ystyriaeth iddynt.

Cafwyd anghytundeb barn ynghylch materion technegol, yn enwedig o ran a oes angen pennu neu nodi amgylchiadau sydd angen eu hasesu'n fanwl. Roedd rhai'n teimlo bod angen rhagnodi; roedd ymatebwyr eraill o blaid hyblygrwydd. Roedd pawb yn gytun fodd bynnag, os oes angen asesiadau technegol o gwbl, y dylid eu cynnal mor fuan â phosibl yn y broses.

Teimlwyd bod angen cyfeirio'n benodol yn yr adran hon at unedau amaeth dwys, gan nodi eu leoliad o ran ardaloedd sensitif a'r diffyg mecanwaith i ddelio ag effeithiau cronnus (y tu allan i broses yr EIA). Cafwyd awgrymiadau, gan gynnwys ynghylch parthau a system goleuadau traffig ar gyfer cynlluniau datblygu ac ardaloedd rheoli ansawdd aer ecolegol. Yn yr un maes, teimlai rhai ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â mathau newydd o ddatblygu, gan nodi'r egwyddor ragofalus.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Gwnaed nifer o awgrymiadau defnyddiol a manwl fel rhan o'r ymgynghoriad ac rydym wedi'u derbyn yn ôl y gofyn. Mae angen rhoi mwy o sylw i rai sylwadau ac o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud gwaith i baratoi nodyn cyngor technegol ar gynllunio ar gyfer ansawdd aer a seinwedd, byddwn yn ystyried y sylwadau hyn fel rhan o'r broses honno.

Yn arbennig, gwnaed diwygiadau i roi cydnabyddiaeth fwy ystyrlon o rôl cynlluniau i ddatrys problemau ansawdd aer a seinwedd, pwysigrwydd dylunio a chyfranogiad buan y prif

randdeiliaid ac effeithiau datblygu cronnus ar dderbynyddion sensitif. Mae cyfeiriadau at lygredd amaethyddol posibl a datblygiadau newydd wedi cael eu hymgorffori fel ymateb i'r sylwadau, o dan yr amod y bydd yn rhaid wrth ymgynghori pellach cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol.

Roedd nifer o'r sylwadau'n cwestiynu ymarferoldeb ddilyn y dull polisi a chydnabyddir yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn. Lle bo hynny'n bosibl, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r drafft ond byddwn yn ymdrin â'r materion hyn yn bennaf trwy ddarparu arweiniad.

| **C33** | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â gwasanaethau dŵr sydd yn y fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae Rhifyn 10 drafft PCC yn esbonio'n well y rhyngweithio cymhleth rhwng datblygu a gwasanaethau dŵr na Rhifyn 9 PCC trwy roi mwy o sylw i'r ffaith na ddylai dŵr wyneb gael ei arllwys i garthffosydd cyfun, cynnwys mwy o bwyslais ar rôl dŵr a'i reolaeth a'u cysylltiadau â buddiannau a llesiant ehangach a mwy o bwyslais ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau).

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 11 | 3 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 7 | 10 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 5 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 8 | 21 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 8 | 6 | 1 |
| Arall | 7 | 9 | 2 |
| **Cyfanswm** | **36** | **61** | **9** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **34%** | **58%** | **8%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Dywedodd yr ymatebwyr bod angen mwy o wybodaeth am SDCau a gofynion deddfwriaethol Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn enwedig er mwyn rhoi eglurder ynghylch y rhyngwyneb rhwng cynllunio a phroses y SAB. Cafwyd rhai sylwadau manwl ynghylch dylunio a chydweithio â chorff y SAB, manteision dulliau cydweithio/strategol/cymunedol wrth weithio ar gyfer SDCau dros ardaloedd eang. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo fodd bynnag bod y gofyn am SDCau yn anghymesur, afrealistig ac yn arwain at ganslo datblygiadau. Gofynnwyd am fwy o arweiniad.

Roedd ystod eang ac amrywiol o ymatebwyr yn teimlo nad oedd y mecanweithiau ar gyfer cynllunio seilwaith dŵr yn gweithio'n effeithlon. Nid yw system y cynlluniau'n dylanwadu ar y

Broses Rheoli Asedau (AMP) a ddefnyddir wrth gynllunio seilwaith dŵr ac nid oes dyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr i weithio gydag awdurdodau cynllunio o gefnogi planiau argyfwng. Teimlwyd y byddai natur ddarniog y system yn parhau cyn belled â bod datblygwyr yn barod i dalu ond mae hyn yn gwanhau sicrwydd system sy'n cael ei harwain gan gynllun. Roedd ymatebwyr eraill am weld amodau mwy pendant trwy bolisi er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant. Yn y cyd-destun hwn, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Cafwyd awgrymiadau manwl ynghylch pob un o'r pwyntiau hyn.

Cafwyd sylwadau manwl ynghylch unedau amaethyddol dwys, yn enwedig o ran eu heffeithiau cronnus ar amgylchedd y dŵr, gyda cheisiadau am gyfeiriad polisi (a'r cysylltiad ag ansawdd yr aer).

Gwnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu rhan gwasanaethau dŵr yn y broses o greu lle a dywedodd ymatebwyr eraill nad lle'r broses gynllunio oedd darparu manteision cronnus. Ei unig nod yn hytrach yw sicrhau na cheid effeithiau andwyol dros ardaloedd eang. Roedd ymatebwyr eraill yn anghytuno â hyn ac yn cefnogi'r ffocws ar gyfleoedd i sicrhau manteision amrywiol trwy weithio integredig mewn cysylltiad â darparu SDCau a mesurau amrywiol er budd natur ar safleoedd ac oddi arnynt.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Ar sail y sylwadau, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r polisi, yn bennaf trwy gyfeirio at ofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a phwysleisio pwysigrwydd ystyried SDCau yn fuan yn y broses gynllunio, gan gynnwys wrth ddewis dyluniadau. Mae'r angen am gydweithio clos â SAB wedi'i ychwanegu.

Nodir yr angen am berthynas effeithiol rhwng darparu seilwaith dŵr a'r broses gynllunio. Cydnabyddir bod angen cydgysylltu effeithiol yn y polisi i'r graddau ei fod o fewn cylch gwaith PCC, er y cydnabyddir bod y diwygiadau hyn yn rhai bach ac nad ydynt yn newid y sefyllfa sy'n parhau. Mae esboniadau a chroesgyfeiriadau manylach wedi'u gwneud, er mwyn crisialu rolau a chyfrifoldebau a'r cyd-destun yr ystyrir y seilwaith ynddo.

Mae sylwadau ehangach ynghylch amgylchedd y dŵr fel rhan o'r broses o greu lle wedi cael eu hystyried. Yng nghyd-destun gwneud y gorau o gyfraniad y system gynllunio at y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), barnwyd na fyddai'n briodol glasdwreiddio'r polisi drafft sydd o blaid mynd ati mewn ffordd ragweithiol a chadarnhaol i sicrhau canlyniadau cynaliadwy.

| **C34** | Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a fabwysiadwyd i fynd i'r afael â risgiau amgylcheddol a dull ar sail dadrisgio? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Mae Rhifyn 10 drafft yn rhoi risgiau amgylcheddol, fel halogi tir ac ansadrwydd tir, yn nghyd-destun "dadrisgio". Gellir meddwl am ddadrisgio fel gwireddu potensial lle trwy reoli risg a nodi cyfleoedd. Mae'n dibynnu ar ddod i ddeall y risg a'r cyfleoedd yn well a hyrwyddo cydweithio rhwng asiantaethau a sefyllfaoedd lle gall gwybodaeth, tystiolaeth ac asesiadau gael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu a'u rhannu.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| **Ymatebwyr yn ôl math** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 4 | 10 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 5 | 12 | 3 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 6 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 14 | 15 | 1 |
| Y sector gwirfoddol | 3 | 6 | 1 |
| Arall | 5 | 8 | 7 |
| **Cyfanswm** | **37** | **55** | **14** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **35%** | **52%** | **13%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Cafwyd nifer o ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn hwn. Teimlwyd bod y polisi'n gwbl gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn hyrwyddo tryloywder a rhannu data. Deellir bod yn rhaid i unrhyw effaith ar yr amgylchedd arwain at ganlyniad cadarnhaol. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth i ddeall gofynion posibl datrisgio neu nad ydynt yn anghytuno â'r egwyddor ond bod angen mwy o eglurder arnynt, yn enwedig o ran y gofynion ymarferol. Barnwyd bod y term 'datrisgio' yn rhy jargonllyd. Teimlai ymatebwyr eraill ei fod yn rhan o'r broses arferol ac y dylid ei gofleidio. Fodd bynnag, mynegwyd y teimlad cyffredinol y byddai'n arwain at fwy o feichiau ac at oblygiadau ariannol i awdurdodau cynllunio.

Cafwyd sylwadau ynghylch rhannu gwybodaeth â datblygwyr ac awgrym ynghylch cofrestr risgiau ganolog a chronfa adfer tir cenedlaethol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Cafodd nifer o bwyntiau dilys eu gwneud fel rhan o'r ymgynghoriad ac mae testun wedi'i ychwanegu. Dylai hynny helpu, gan gynnwys lleihau'r dryswch ynghylch ar bwy y mae'r cyfrifoldeb wrth gynnig safle neu safleoedd, ai'r datblygwr ynteu'r awdurdod cynllunio.

Codwyd pwyntiau ynghylch sadrwydd y tir a'r canfyddiad bod y polisi'n awgrymu mai mater i'r hen ardaloedd glofaol ydoedd ac nid materion sadrwydd tir cyffredinol. Mae hyn wedi'i nodi ac o'r herwydd, mae testun newydd wedi'i ychwanegu o dan y pennawd Cyflwr Ffisegol y Ddaear ac Ansadrwydd y Tir.

Mae mân-newidiadau eraill wedi'u gwneud fel ymateb i'r plê am fwy o eglurder.

| **C35** | Ydych chi’n cytuno fod y datganiadau polisi eraill heblaw’r rheini y cyfeirir atynt yng Nghwestiynau 1 i 33 uchod yn adlewyrchu’r polisi cyfredol yn gywir? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Wrth ailwampio Rhifyn 10 PCC, y nod oedd cadw'r rhan fwyaf o'r polisi oedd yn Rhifyn 9.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 11 | 3 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 2 | 8 | 10 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 4 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 9 | 16 | 5 |
| Y sector gwirfoddol | 0 | 6 | 1 |
| Arall | 3 | 8 | 6 |
| **Cyfanswm** | **19** | **53** | **25** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **20%** | **55%** | **26%** |

| C36 | Os yna unrhyw ddatganiadau polisi cyfredol ym Mholisi Cynllunio Cymru 9 nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhifyn 10 drafft o Bolisi Cynllunio Cymru ac y dylid eu cadw yn eich barn chi? Os na, eglurwch pam. |
|---|---|

***Cyd-destun y Cwestiwn***

Wrth ailwampio Rhifyn 10 PCC, y nod oedd cadw'r rhan fwyaf o'r polisi oedd yn Rhifyn 9.

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Trosolwg Ystadegol***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 0 | 12 | 2 |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol | 4 | 11 | 2 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill | 1 | 4 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau buddiant | 3 | 17 | 4 |
| Y sector gwirfoddol | 1 | 4 | 0 |
| Arall | 5 | 8 | 3 |
| **Cyfanswm** | **14** | **56** | **11** |
| **%** *(mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)* | **17%** | **69%** | **14%** |

***Ymatebion i'r Cwestiwn - Dadansoddiad Cryno***

Fel ymateb i'r ddau gwestiwn olaf, cafwyd llawer o sylwadau gwahanol ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys newidiadau i destun penodol; cais am fwy o wybodaeth am ambell agwedd ar bolisi; a strwythur y ddogfen gyfan.

Gwnaeth nifer o awdurdodau lleol awgrymu y dylid adfer hen fformat PCC lle mae ystyriaethau o ran rheoli datblygiadau a chynlluniau datblygu'n cael eu huwcholeuo yn y testun ac y cynhwysir blwch penodol yn nodi datganiadau penodol o bolisi cenedlaethol. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at ddiffyg fframwaith cyfreithiol a oedd yn rhan o gyflwyniad fersiwn flaenorol y ddogfen. Roedd nifer yn cwestiynau hefyd y diffyg cyfeiriadau yn y ddogfen ddrafft.

Gwnaeth nifer dda o ymatebwyr sylwi ar adrannau manwerthu ac amgylchedd hanesyddol y ddogfen a'r ffaith iddynt gael eu diweddaru'n ddiweddar a bod yr adrannau bellach lawer yn llai na'r fersiynau blaenorol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Wrth ailddrafftio PCC, roedd Llywodraeth Cymru am sicrhau bod creu lleoedd yn dod yn rhan ganolog o'r system gynllunio. Ni fyddai hynny'n bosibl os gwelir y ddogfen polisi cynllunio cenedlaethol yn ddogfen gyfarwyddo 'ticio blychau' nad yw'n rhoi'r rhyddid i awdurdodau cynllunio ddatblygu'u polisïau a'u harferion eu hunain i greu lleoedd gwell ac unigryw sy'n adlewyrchu cymeriad ac anghenion eu hardaloedd.

Lle bo angen arweiniad penodol, darperir hynny yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a'r Llawlyfr Rheoli Datblygiadau. Mae adran ddiwygiedig ar y cyd-destun cyfreithiol wedi'i gynnwys bellach yn Atodiad A. Mae cyfeiriadau wedi'u hychwanegu, gyda dolenni lle bo'r rheini ar gael.

O ran y penodau ar fanwerthu a'r amgylchedd hanesyddol, er eu bod yn fyrrach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ofalus i beidio â dileu unrhyw rai o ddatganiadau'r polisi craidd. Ceir rhagor o arweiniad yn y Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig.

Caiff Polisi Cynllunio Cymru ei adolygu'n barhaus gyda chyfle i ymgynghori ar ddiweddariadau fydd yn cael eu cyhoeddi yn ôl yr angen. Rhifyn 10 y ddogfen yw fersiwn gyntaf PCC yn ei ffurf newydd sy'n canolbwyntio ar greu lleoedd; fodd bynnag, dechrau'r broses yw hyn. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn ymchwilio i ffyrdd ar gyfer helpu i roi creu lleoedd ar waith.

## Atodiad - Rhestr o'r Ymatebwyr yn ôl Categori

### Busnesau

| |
|---|
| Arup |
| Associated British Ports |
| Barratt David Wilson Homes De Cymru |
| Blackstone South Wales Limited |
| Castleoak Group |
| Celtic Energy Ltd |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dulas Ltd |
| EDF Energy |
| Environmental Dimension Partnership Ltd (EDP) |
| Environmental Dimension Partnership Ltd (EDP) – Swyddfa Caerdydd |
| Grid Cenedlaethol |
| Horizon Nuclear Power Ltd |
| Huw Evans Planning |
| Innogy Renewables UK Ltd |
| Lichfields |
| LRM Planning |
| Llandow Newydd d/o Lichfields |
| Owen Davies Consulting Ltd |
| RWE Generation UK plc |
| Savills |
| Sirius Renewable Energy |
| SP Energy Networks |
| Taylor Wimpey Strategic Land - Cymru a Gorllewin Lloegr |
| Taylor Wimpey UK Ltd |
| Tidal Lagoon Power |
| Vattenfall |
| **Cyfanswm = 31** |

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

| |
|---|
| Cydwasanaethau Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru |
| Cyngor Abertawe |
| Cyngor Abertawe, Is-adran Amgylchedd Naturiol |
| Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngor Dinas Caerdydd |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Caerfyrddin - Tîm Llygredd a Llesiant |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Parciau Cenedlaethol Cymru |
| Uned Cynllunio Polisi ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd |
| **Cyfanswm = 26** |

**Asiantaeth y Llywodraeth / Cyrff cyhoeddus eraill**

| |
|---|
| Awdurdod Glo |
| Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Comisiwn Dylunio Cymru |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Comisiynydd y Gymraeg |
| Cydbwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid |
| Cyngor Cymuned Pen-y-Ffordd |
| Cyngor Cymuned Sain Ffagan |
| Cyngor Tref Aberystwyth |
| Cyngor Tref y Barri |
| Cyngor Tref Bwcle |
| Chwaraeon Cymru |
| Dienw |
| Dienw |
| Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ateb ar y cyd) |
| Gweinyddiaeth Amddiffyn |
| Gweithgor Halogi Tir Cenedlaethol Cymru |
| Network Rail |
| Panel Arbenigwyr Llygredd Cymru Gyfan ar ran Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol |
| Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro |
| Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru |
| **Cyfanswm = 25** |

**Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant**

| |
|---|
| Beicio Cymru |
| Bywyd Cymru |
| Cangen Sir Benfro YDCW |
| Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Y Cerddwyr |
| Cofnod - North Wales Environmental Information Ltd |
| Cŵn Tywys Cymru |
| Cycling UK |
| Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Cyngor Penaethiaid Heddlu Cymru |
| Cylch yr Iaith |
| Cymdeithas Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol |
| Cymdeithas Ceffylau Prydain |
| Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau |
| Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol |
| Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol Cymru |
| Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) Cymru |
| Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru |
| Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru |

| |
|---|
| Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol: Cymru |
| Cymdeithas Tawelu Sŵn |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Dienw |
| Dyfodol i'r Iaith (ymateb ar-lein) |
| Dyfodol i'r Iaith (ymateb e-bost) |
| Energy UK |
| Geoconservation Cymru - Wales |
| Grŵp Cyswllt Tirweddau'r De (SWLLG) |
| Grŵp Mwynau'r CBI |
| Grŵp Trafod Mwynau a Gwastraff Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru |
| Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Gwasanaeth Galluogi Tai Gwledig y Gogledd Orllewin a Thai Cymunedol Cymru (ateb ar y cyd) |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Fforwm Seiclo Sir Gâr |
| Meysydd Chwarae |
| Mobile UK |
| Music Venue Trust |
| National Custom and Self Build Association |
| Plantlife Cymru |
| Road Haulage Association Ltd |
| Sefydliad Acwsteg (Cangen Cymru) |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) Cymru |
| Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) Cymru |
| Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru |
| Sefydliad Siartredig Rheoli Ecoleg a'r Amgylchedd |
| Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru |
| Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr, Cyngor Archeoleg Prydain a Ffederasiwn Rheolwyr a Chyflogwyr Archeolegol (ateb ar y cyd) |
| Sefydliad Tirweddau |
| Un Llais Cymru |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr - Cymru |
| Y Gymdeithas Ddaearegol |
| Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed |
| Ymddiriedolaeth y Theatrau |
| **Cyfanswm = 61** |

**Y Sector Gwirfoddol**

| |
|---|
| Age Cymru |
| Beicio Bangor |
| Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth y De Ddwyrain |
| Carnegie UK Trust |
| Coed Cadw – the Woodland Trust |
| Coed Lleol - Small Woods Association (ateb ar-lein) |
| Coedwigoedd Bach (ateb e-bost) |
| Cronfa Byw Un Blaned |
| Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru |
| Cymdeithas Ddinesig y Fenni a'r Cylch |
| Cymdeithas Eryri |
| Cymorth Cynllunio Cymru |
| Chwarae Cymru |
| Dienw |
| Dinas Seiclo Caerdydd |
| Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| Fforwm y Coed Hynafol |
| Glandŵr Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru |
| Gofal a Thrwsio Cymru |
| Grŵp Cymuned Cilgwyn |
| Rhwydwaith Calon Cymru |
| Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru |
| Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint (Cymru) |
| Sustain |
| Sustrans Cymru |
| Trees and Design Action Group |
| Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig - Cangen Brycheiniog a Maesyfed |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW), Cangen Sir Drefaldwyn |
| Ymgyrch Parciau Cenedlaethol |
| Ymgyrch Seiclo Caerdydd |
| Ynni Cymunedol Cymru |

| |
|---|
| **Cyfanswm = 33** |

**Arall**

| |
|---|
| Alister Scott |
| Anthony O'Leary |
| Arqiva |
| Campaign for Real Ale |
| Cycling UK – cynrychiolydd Right to Ride o Fro Morgannwg |
| Chris Jones |
| Christopher Moorman |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dr. Dai Lloyd AC - Gorllewin De Cymru |
| Dr. David Brancher |
| Gary Wyatt-Williams |
| Hyrwyddwyr cyfle i greu anheddiad newydd Llansanffraid Gwynllŵg. |
| Jenny Rathbone AC |
| John Griffiths AC |
| John Mather |
| Julie Morgan AC |
| Just Food Group |
| Kenneth J Richards |
| Les Hayward |
| Leyton Williams |
| Marie Morgan |
| Mick Antoniw AC |
| Mike Bird |
| Mike Hedges AC |
| Mr R W Ebley |
| Owain Lewis |
| Patricia Martin |
| Richard Brunstrom |
| Roy Spilsbury – Seiclo Gogledd Cymru |
| Strydoedd Byw Cymru |
| Susan Baron |
| Tai Hanesyddol |
| Trivallis |
| Wheelrights – Ymgyrch Seiclo Bae Abertawe |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent |
| **Cyfanswm = 41** |

- ***Yn ogystal â'r uchod, cafwyd 2,562 o ymatebion trwy weithgarwch wedi'i drefnu ynghylch y polisi ar goetir hynafol.***